# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Annwyl Syr / Fadam,

Atodir agenda a dogfennau eraill isod ar gyfer cyfarfod o'r **Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych**.

Yr eiddoch yn gywir,

Gary Williams
**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

---

Dear Sir / Madam,

An agenda and other documents for a meeting of the **Conwy and Denbighshire Public Services Board Joint Overview and Scrutiny Committee** are attached below.

Yours faithfully,

Gary Williams
**Head of Legal, HR and Democratic Services**

**AGENDA**

**1 PECYN AGENDA/AGENDA PACK** (Tudalennau/Pages 3 - 88)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Gofynnwch am: **Dawn Hughes**
☎ **01492 576061**
**committees@conwy.gov.uk**

Ein Cyf: **DEJ/DCH**
Eich Cyf:
Dyddiad : **17/12/2020**

**RHYBUDD O GYFARFOD**

**Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu**

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych**

**Gyfarfod Rhithiol**

**Dydd Gwener 8 Ionawr 2021**

**10.00 am**

Delyth E Jones
Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu

**At:-**

**Y Cynghorwyr:**

Jeanette Chamberlain-Jones
Geoff Corry
Brian Cossey (Cadeirydd)
Rachel Flynn
Chris Hughes
Hugh Irving
Ifor Lloyd
Melvyn Mile
Arwel Roberts
Liz Roberts
Harry Saville
Peter Scott
Nigel Smith
Graham Timms (Is-Gadeirydd)
Joan Vaughan
David Gwyn Williams

# R H A G L E N

Dalier sylw - Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972, y mae'n bosibl y bydd y Cyhoedd a'r Wasg yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitemau lle mae'n debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu.

Nodyn atgoffa – Mae croeso i chi ddefnyddio’r Gymraeg yn y cyfarfod hwn. Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

**2. Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

**3. Materion Brys**

Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4. Cofnodion**

Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir *(Tudalennau 3 - 10)*

**5. I gael diweddariad gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfraniad partneriaid a manteision i bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol)**

**6. I gael cyflwyniad ar derfynau amser statudol allweddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2021/22** *(Tudalennau 11 - 15)*

**7. I dderbyn y dogfennau canlynol:**

**i)** Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2019/20 *(Tudalennau 16 - 32)*

**ii)** Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynllun Gweithredu *(Tudalennau 33 - 83)*

**8. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol** *(Tudalennau 84 - 85)*

***Nodyn: Nid yw Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatau ystyried unrhyw eitem o fusnes mewn cyfarfod o'r prif Gyngor oni bai fod y rhybudd angenrheidiol wedi ei roi ymlaen llaw. Felly, oni bai fod eitem yn cael ei hystyried fel eitem frys, ni chaniateir ystyried unrhyw fater arall.***

**CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

Cofnodion cyfarfod Cyd Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych (BGC) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy LL32 8DU dydd Mawrth, 21 Mai 2019 am 2.00pm.

**YN BRESENNOL**

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Brian Cossey, Goronwy Edwards, Chris Hughes, Hugh Irving, Charlie McCoubrey, Melvyn Mile, Greg Robbins, Arwel Roberts, Harry Saville, Nigel Smith, Graham Timms ac Aaron Wynne.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Iwan Davies (Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) ac Is Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus BGC)), Sian Williams (Pennaeth Gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadeirydd BGC), Nicola Kneale (Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol Cyngor Sir Ddinbych (CSDd)), Natasha Hughes (Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad CSDd), Fran Lewis (Rheolwr Perfformiad Corfforaethol a Gwelliant CBSC), Hannah Edwards (Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CBSC), Steve Price (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, CSDd), Dawn Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor a Chraffu CBSC), Rhian Evans (Cydlynydd Craffu CSDd), Holly Ballard (Gweinyddwr Pwyllgor CSDd).

**RHAN I**

Croesawodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Ddinbych bawb i'r cyfarfod cyntaf o Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych. Yn ystod ei gyflwyniad rhoddodd drosolwg i'r aelodau o'r broses a ddilynir i sefydlu'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'i gylch gorchwyl. Eglurodd bod ei sefydlu yn cyflawni dyletswydd statudol o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 at ddiben dal y BGC i gyfrif yn lleol. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn ymgynghorai statudol ar gyfer holl gynlluniau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Rachel Flynn, y Cynghorydd Peter Scott a'r Cynghorydd David Gwyn Williams.

1 **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Rachel Flynn, Peter Scott a David Williams.

2 **DATGAN CYSYLLTIAD**

Nid oedd unrhyw un yn datgan cysylltiad personol nac un oedd yn rhagfarnu.

Cyn gofyn am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2019/20 a 2020/21, yn unol â chylch gwaith y Pwyllgor, roedd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn am farn y Pwyllgor ar sut oeddent yn dymuno ethol deilwyr swydd drwy godi llaw neu drwy bleidlais gyfrinachol.

**Penderfynwyd:** - bod deilwyr y ddwy swydd yn cael eu hethol drwy bleidlais codi llaw.

3 **PENODI CADEIRYDD**

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Cafodd y Cynghorydd Brian Cossey ei enwebu a'i eilio. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill. Felly:

**Penderfynwyd:** - bod y Cynghorydd Brian Cossey yn cael ei ethol yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy a Sir Ddinbych y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer blwyddyn y cyngor 2019/20 a 2020/21.

Diolchodd y Cynghorydd Cossey i bawb am eu cefnogaeth ac am ymddiried ynddo.

4 **PENODI IS-GADEIRYDD**

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Is-Gadeirydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Hysbyswyd yr Aelodau yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor y dylai’r Is-Gadeirydd gael ei benodi ymhlith aelodau’r Pwyllgor sy’n cynrychioli awdurdod lleol nad oedd yn Gadeirydd y Pwyllgor. Cafodd y Cynghorydd Graham Timms ei enwebu a'i eilio. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill:

**Penderfynwyd:** - bod y Cynghorydd Graham Timms yn cael ei ethol yn Is-Gadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer blwyddyn y cyngor 2019/20 a 2020/21.

5 **MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD**

Ni dderbyniwyd hysbysiad am unrhyw faterion brys.

6 **ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH 2018-19**

Hysbysodd Iwan Davies, Is-Gadeirydd Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yr aelodau o fis Mehefin 2019, y byddai Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a byddai Judith Greenhalgh, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych yn Is-Gadeirydd Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cyflwynodd Is-Gadeirydd Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus yr adroddiad a chyflwyniad (dosbarthwyd yn flaenorol) i gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2018-19 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r aelodau. Eglurodd fod gan ardal bob awdurdod lleol rwymedigaeth gyfreithiol i sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Gan fod Conwy a Sir Ddinbych wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd yn flaenorol, rhagflaenydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cytunwyd i barhau'r bartneriaeth hon drwy sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd. Roedd aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys y ddau Gyngor, yr Heddlu, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Tân ac Achub, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru, Iechyd y Cyhoedd Cymru, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru a'r Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol yn y ddwy sir (Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Dinbych) ac ati. Byddai sefydliadau cyhoeddus eraill yn cael eu gwahodd i gyfrannu at waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus os oedd yn cael ei ystyried yn briodol. Rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus oedd gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardaloedd y siroedd drwy weithio i gyflawni'r saith nod lles a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Hysbyswyd yr Aelodau am y broses a ddilynir i lunio Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fel rhan o'r broses hon, cysylltwyd â'r cyhoedd yn yr haf 2016 yn defnyddio dull Sgyrsiau'r Sir. Diben hyn oedd cael dealltwriaeth o'r hyn oedd yn gweithio'n dda yn yr ardaloedd gwahanol a beth oedd angen canolbwyntio arno er budd cenedlaethau'r dyfodol. Rhwng yr haf 2016 ac Ebrill 2017, cafodd yr Asesiad Lles ei lunio.

Penderfynodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus na ddylai ddyblygu gwaith a wnaed neu a wneir gan sefydliad arall, felly roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi nodi 6 thema y gellir eu hadolygu. Roedd y rhain yn cynnwys:

1. Mil Diwrnod Cyntaf Bywyd
2. Hybu canolfannau cymunedol
3. Hybu lles meddyliol ar gyfer pob oed
4. Hybu gwytnwch mewn pobl hŷn
5. Hybu gwytnwch amgylcheddol
6. Magu pobl ifanc wydn ac uchelgeisiol

Drwy'r broses Sgyrsiau'r Sir, roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymgynghori â'r cyhoedd ar y themâu hyn ac yn seiliedig ar adborth a dderbyniwyd penderfynwyd rhesymoli'r nifer o themâu blaenoriaeth o 6 i 3. Gwnaed hyn drwy

asesu'r effaith, goblygiadau hirdymor ac archwilio a oedd gwaith eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â'r rhain. Yn dilyn y broses hon roedd y Cynllun Llesiant ei hun wedi'i gymeradwyo gan bob partner statudol cyn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Ebrill 2018. Roedd y Cynllun terfynol yn nodi cyfanswm o dair thema y dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddelio â nhw, roedd y rhain yn cynnwys:

1. Pobl – Cefnogi lles meddyliol da i rai o bob oed
2. Cymuned - Rhoi grym i gymunedau
3. Lle - Cefnogi Gwytnwch Amgylcheddol

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wedi ymrwymo i 4 egwyddor ychwanegol sy'n cefnogi'r 3 thema blaenoriaethau:

a. Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thrin pawb yn gyfartal
b. Cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg
c. Cefnogi pobl er mwyn iddynt gael gafael ar lety iach, diogel a phriodol
ch.Osgoi dyblygu gwaith.

Roedd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru yn egluro ar y dechrau bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dymuno cysylltu â'r prosiect o ongl wahanol, yn hytrach na chael arbenigwr yn eu meysydd perthnasol ar gyflawni'r blaenoriaethau byddent yn mabwysiadu dull gwahanol ar gyfer penodi arbenigwyr o feysydd pwnc eraill i arwain ar flaenoriaethau y tu allan i'w meysydd arbenigol e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru i arwain ar iechyd meddwl. Nod hyn oedd caniatáu gwahanol safbwyntiau ar y themâu, gyda'r gobaith y gellir gofyn cwestiynau newydd i gael canlyniad gwahanol a gwell. Roedd arferion yn dangos nad oedd y dull hwn wedi bod mor effeithiol ag y rhagwelwyd yn wreiddiol. Felly, o hyn ymlaen byddai'r sefydliad arbenigol yn arwain ar y themau perthnasol i barhau ymchwil.

Roedd y flaenoriaeth gyntaf, Cefnogi Lles Meddyliol da i bob oed yn profi'n thema fwy nag y rhagwelwyd. Roedd Cadeirydd newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hysbysu'r Pwyllgor bod Is-Grŵp Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i sefydlu i gael dealltwriaeth o'r gwaith a wneir eisoes yn y maes drwy'r Partneriaethau a Byrddau Lleol.

Yn unol â'r adroddiad wedi'i amgáu, tudalen 31. Roedd 2 gam cyntaf y thema Cefnogi Lles Meddyliol da wedi'i gwblhau gyda'r trydydd cam ar y gweill. Hysbyswyd yr Aelodau yn ystod cyfarfod blaenorol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y cytunwyd i drosglwyddo'r ffrwd gwaith i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Byddai yna angen nawr i nodi amcanion tymor byr, canolig a hir mewn perthynas â chyflawni themau.

Roedd Is-Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn awgrymu i'r Pwyllgor, ei fod fel rhan o'i raglen gwaith i'r dyfodol, efallai yn dymuno asesu'r cynnydd a gyflawnwyd hyd yma o ran y thema benodol hon.

Cyflwynodd Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol Sir Ddinbych yr ail flaenoriaeth; Cymuned – Cefnogi Ymrymuso'r Gymuned i'r grŵp.

Eglurodd fod y canlyniad wedi'i ffurfio drwy gasglu gwybodaeth yn y Gweithdai Cyhoeddus. Y 3 maes a nodwyd oedd;

- Cymunedau Cyfeillgar i Dementia
- Presgripsiynu Cymdeithasol
- Cefnogaeth i Ddigartrefedd a Thenantiaethau Ansefydlog

Hysbyswyd yr Aelodau er fod Sir Ddinbych yn arwain ar y thema Ymruso'r Gymuned, roedd ganddynt ddigon o gefnogaeth gan adrannau yn Sir Ddinbych a Chonwy. Yn ystod y gweithdai dywedodd un partner o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych eu bod wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddarparu Rhaglen o dan arweiniad Cymuned sy'n Ymwybodol o Dementia, byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cefnogi'r rhaglen ac yn derbyn diweddariadau drwy gydol 2 flwyddyn y cynllun.

Yn wreiddiol roedd y nod ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol yn edrych ar y ddarpariaeth a ffurfioli'r cynigion i'r cyhoedd. Dywedodd y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol yn ystod misoedd diweddar bod yr agenda wedi newid a'r canolbwynt presennol ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol oedd Rheoli Pwysau. Y bwriad oedd creu cynllun lleol ar gyfer Sir Ddinbych a Chonwy i helpu pobl i reoli eu pwysau. Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus nawr yn ceisio datblygu rhaglen ar gyfer rheoli pwysau.

Cafodd yr Aelodau eu hysbysu nad oedd y trydydd maes, Cefnogaeth ar gyfer Digartrefedd a Thenantiaethau Ansefydlog yn derbyn yr un sylw â'r ddau faes blaenorol roedd hyn o ganlyniad i'r capasiti o fewn y tîm. Fodd bynnag, eglurodd y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol eu bod yn ymwybodol o gefnogaeth oedd ar gael ar hyn o bryd a byddai'n canolbwyntio mwy ar y maes hwn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Cyflwynodd Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol Conwy y drydedd flaenoriaeth, Cefnogi Gwydnwch Amgylcheddol. Eglurodd mai un maes lle roeddent yn teimlo bod yna fwlch o ran gweithio mewn partneriaeth oedd y brys o ran newid hinsawdd.

Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn teimlo bod angen mwy o waith o ran ymrymuso cymunedau i fynd i'r afael â'r broblem newid hinsawdd a sut gall y sector cyhoeddus eu cynorthwyo. Roedd yna angen hefyd i ystyried y testun ar lefel strategol, drwy brosesau caffael, ceisiadau cynllunio a gwasanaethau gwastraff.

Eglurodd y Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol bod 2 is-grŵp wedi eu sefydlu i ganolbwyntio ar themâu ar wahân. Byddai'r grŵp cyntaf yn cynnwys arbenigwyr amgylcheddol yn datblygu datganiad polisi oedd yn amlinellu pa fframweithiau y byddai pawb yn gweithio tuag atynt, gan gynnwys meysydd arferion da a chamau i'w cymryd. Byddai'r ail grŵp yn dod ag arbenigwyr amgylcheddol ynghyd i ddatblygu addewidion gwyrdd cymunedol. Y canlyniad fyddai annog cymunedau i gynorthwyo. Roedd ymchwil wedi canfod bod rhai cymunedau eisoes wedi datblygu mentrau llwyddiannus. Roedd rhai addewidion cymunedol wedi eu drafftio, byddai'r rhain yn cael eu defnyddio fel canllawiau i awgrymu ffyrdd o fod yn fwy gwyrdd.

Roedd y Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol yn hysbysu'r aelodau yr ymgynghorir â chynghorau tref a chymuned yn ystod yr haf 2019.

Pwnc arall fyddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn delio ag ef fyddai risgiau amgylcheddol. Er bod hwn yn ei ddyddiau cynnar. Hysbyswyd yr Aelodau bod trafodaethau ar y gweill. Nodwyd hefyd bod yna fwriad i weithio'n rhanbarthol, i sicrhau y gall yr holl gynghorau rannu syniadau a'u gweithredu ar draws Gogledd Cymru.

Roedd Is-Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn canmol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am y cynnydd a wnaed, gan nodi y byddai rhai agweddau o ymchwil y Bwrdd angen mwy o amser a sylw. Roedd hefyd yn amlygu canlyniad cadarnhaol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y berthynas waith gadarnhaol gyda sefydliadau eraill, oedd yn dwyn ffrwyth mewn amrywiol agweddau o waith sector cyhoeddus yn yr ardal.

Roedd Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol, Cyngor Sir Ddinbych yn ychwanegu y bu newidiadau newydd o ran deddfwriaeth tai oedd wedi rhoi pwysau ar Awdurdodau Lleol. O ran Sir Ddinbych, roeddent eisiau sicrhau bod y broses bresennol yn gywir cyn gweithio gyda sefydliadau partner, cadarnhaodd mai dyma pam y bu oedi o ran datblygu'r elfen Dai yn thema Ymrymuso'r Gymuned.

Roedd Aelodau yn cydnabod y byddai yna lawer o bethau y gellir eu rhannu rhwng y ddwy sir. Pryder arbennig oedd yr angen i ystyried yr effeithiau a'r budd i'r ddwy sir o ran datblygu ar hyd ardaloedd ffiniau'r siroedd. Roedd Is-Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hysbysu'r aelodau bod gwaith wedi'i wneud gyda'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), i sicrhau bod y ddau CDLl yn ymwybodol o bryderon ffin y naill Sir a'r llall.

Cytunodd yr Aelodau y dylai Conwy a Sir Ddinbych weithio gyda'i gilydd ar nifer o faterion. Roedd llifogydd yn fater mawr i'r ddwy sir a gellir gwneud mwy o waith ar y cyd. Roedd gan Bodelwyddan a nodwyd yn y Fargen Dwf Gogledd Cymru fel ardal ddatblygu y potensial i achosi materion i Sir Ddinbych a Chonwy. Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi argymell bod y byrddau yn gweithio'n rhanbarthol ar y sefyllfa risg llifogydd. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi sefydlu grwpiau i weithio gyda'i gilydd ar lifogydd a materion cysylltiol – byddai Gwynedd ac Ynys Môn yn cydweithio ar lifogydd a newid hinsawdd, tra byddai Sir Ddinbych a Chonwy yn gweithio ar effaith y rhain ar gymunedau ar draws y rhanbarth. Byddai canfyddiadau'r gwaith hwn yn dod ynghyd ac yn cael ei rannu'n rhanbarthol.

Roedd yr Aelodau yn holi pa fudd ychwanegol fyddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gynnig i'r bobl, hefyd sut gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddylanwadu ar wasanaethau/sefydliadau eraill i gynorthwyo. Egluro sut byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus angen herio Llywodraeth Cymru i ddarparu adnoddau i sicrhau y gellir delio â'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Eglurodd yr Is-Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bod y meysydd blaenoriaeth wedi eu datblygu ar y cyd, ond roedd yn cydnabod bod sicrhau bod gwasanaethau/sefydliadau eraill yn cyflawni eu

hymrwymiad yn gallu bod yn heriol gan fod eu trefniadau llywodraethu yn wahanol i rai awdurdodau lleol. Rôl y Pwyllgor oedd herio uwch swyddogion sefydliadau partner ar eu hymrwymiad i gyflawni blaenoriaethau a chynlluniau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd Cydlynydd Craffu Sir Ddinbych yn hysbysu'r Pwyllgor fod ganddo'r grymoedd i adrodd i Weinidogion Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ei farn ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni ei flaenoriaethau a llywodraethu.

Roedd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru yn atgoffa'r aelodau bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwybodol o sicrhau nad oedd yn dyblygu syniadau na newidiadau yr oedd gwasanaethau/sefydliad arall eisoes wedi eu gweithredu. Byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn edrych ar waith nad oedd wedi'i gyflawni yn y gorffennol ac yn asesu a fyddai defnyddio dull cydbartneriaeth yn gallu ei gyflawni.

Roedd Aelodau yn amlygu'r ffaith na fyddai'r cynlluniau ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa yn symud ymlaen, felly dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus edrych ar sut y gall gefnogi'r agenda ynni gwyrdd. Roedd gan Sir Ddinbych a'i siroedd cyfagos y potensial ar gyfer cynlluniau ynni dŵr felly gallai hynny fod yn rhywbeth y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyfrannu ato a'i annog. Roedd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi'r sylwadau a wnaed a dywedodd y byddai yna botensial i archwilio cynlluniau ynni gwyrdd cymunedol. Aeth ati i godi'r materion uchod gyda Grŵp Ynni Gogledd Cymru.

Roedd yr Aelodau yn dweud sut yr oeddent yn teimlo y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddod at ei gilydd a gwneud i bethau ddigwydd. Roeddent yn amlygu bod yna ddigon o bynciau lle roedd yna faterion y byddai o fudd delio â nhw ar y cyd. Roedd swyddogion yn cynghori er nad oedd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei gyllideb benodedig ei hun roedd y budd o amgylch datblygu perthynas a chynyddu lefelau ymddiriedaeth i allu darparu prosiectau ac wrth wneud hynny mwyhau effaith a budd y prosiectau hynny i bawb..

Rhoddodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru drosolwg i'r aelodau o brosiect parhaus gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Roedd y prosiect wedi dechrau 3-4 blynedd yn ôl ac roedd yn canolbwyntio ar y tirwedd ar ran uchaf Dyffryn Conwy, ar rostir y Migneint. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cyfrannu o safbwynt atgyfeiriad iechyd. Roedd yn gwneud sylwadau ar fanteision perthnasoedd gwaith drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu'r prosiect hwn a darparu budd iechyd, lles ac amgylcheddol.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r dair thema a ddewiswyd i'w blaenoriaethu gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Roedd yr Is-Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn canmol cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hyd yma ond hefyd amlygodd yr angen am fwy o waith ar bynciau penodol.

Roedd y Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol yn hysbysu'r aelodau eu bod mewn cysylltiad rheolaidd gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â'r cynllun a'i ddarpariaeth. Roedd brîff prosiect Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i gyhoeddi o ran gwaith archwilio ar y Cynllun a fyddai'n dechrau ar ddiwedd yr haf/dechrau'r hydref 2019.

Roedd Aelodau yn canmol yr ystadegau ar anifeiliaid a'r amgylchedd gan ei fod yn faes sydd angen mwy o sylw. Roeddent hefyd yn holi am ystadegau Sgwrs y Sir gan fod yna wahaniaeth mawr rhwng oedrannau a phwnc rhwng pob sir.

Eglurodd y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol fod Sir Ddinbych wedi ymweld â chynghorau ysgol i gael barn y bobl ifanc, roeddent hefyd wedi cael llawer o wybodaeth o grwpiau ffocws. Felly, yn dibynnu lle roedd Conwy yn cael y wybodaeth, efallai y bydd yna wahaniaeth mewn materion oed a phwnc.

**Penderfynwyd: -** bod y Pwyllgor;

**(i)** yn derbyn Adroddiad Blynyddol 2018/19 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, yn cymeradwyo'r tri chynllun blaenoriaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd a'r cynlluniau ar waith i'w cyflawni; a

**(ii)** cefnogi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran eu cyflawni a'r mesurau arfaethedig i wneud cynnydd gyda chyflawni Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2019/20

**7 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Cyflwynodd Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau a Chraffu Conwy rhaglen gwaith i'r dyfodol drafft y Pwyllgor ar gyfer 2019/20 (dosbarthwyd yn flaenorol). Dywedwyd wrth yr Aelodau bod cylch gorchwyl y Pwyllgor yn nodi y dylai gyfarfod o leiaf dwywaith yn ystod blwyddyn y Cyngor. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn teimlo y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor gwrdd yn chwarterol, gynted â phosibl yn dilyn cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wed'i drefnu ar gyfer 5 Gorffennaf 2019. Cytunwyd i'r eitemau canlynol gael eu cynnwys ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod.

1. Diweddariad ar ddatblygiad blaenoriaethau Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus (cytunwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf)
2. Effaith gadarnhaol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar Gonwy a Sir Ddinbych hyd yma (cytunwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf).
3. Cyfraniad Partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – cytunwyd ar gyfer cyfarfod diweddarach
4. Cynllun Cyfathrebu/Strategaeth Ymgysylltu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – cytunwyd ar gyfer cyfarfod diweddarach
5. Cofrestr Risg – cytunwyd ar gyfer cyfarfod diweddarach

Cytunodd yr Aelodau hefyd i ychwanegu Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru at rhaglen gwaith i'r dyfodol diwedd 2019/dechrau 2020.

**Penderfynwyd: -** yn amodol ar y newidiadau uchod i gymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor ar gyfer 2019/20

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.30pm**

# Dyddiadau Statudol Allweddol i'w Nodi
# Key Statutory Dates To Note

| 2021 | Tasg |
|---|---|
| Ionawr | Dyddiad cau ymgynghoriad CJC – 4 Ionawr<br>Mesur y Llywodraeth Leol yn derbyn cydsyniad brenhinol<br>Dechrau gwaith ar yr asesiad o anghenion at ddibenion cynllunio strategol |
| Chwefror | Cyflwyno rheoliadau CJC i'r Senedd<br>Dyddiad cau ymgynghoriad Perfformiad a Llywodraethu – 3 Chwefror |
| Mawrth | Y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol yn dod i rym – 31 Mawrth |
| Ebrill | Gofynion Perfformiad a Llywodraethu yn dod i rym |
| Mai | Cwblhau'r Asesiad o Anghenion |
| Mehefin | |
| Gorffennaf | Gwaith ymgysylltu – beth yw ein blaenoriaethau? |
| Awst | |
| Medi | Cynnal cyfarfod cyntaf CJC<br>Dechrau drafftio'r cynllun strategol a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (yn cynnwys y ddyletswydd economaidd gymdeithasol) |
| Hydref | Cyflwyno'r adroddiad blynyddol diwethaf (dan fesur y Llywodraeth Leol) |
| Tachwedd | |
| Rhagfyr | Cwblhau'r cynllun corfforaethol yn barod ar gyfer trafodaeth gyda democratiaeth yn 2022 |
| **2022** | Diwygiadau etholiadol – pŵer cymhwysedd cyffredinol, dyletswyddau cyfranogiad y cyhoedd, asesiadau perfformiad panel, gweddarlledu cyfarfodydd a dyletswyddau newydd i gynghorwyr<br>Cyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol drafft er mwyn ymgynghori yn ei gylch ym mis Mawrth 2022 a'i gymeradwyo ym mis Hydref 2022 |

| 2021 | Task |
|---|---|
| January | CJC consultation deadline 4th January<br>LG Bill receives royal assent<br>Commence work on needs assessment for strategic planning |
| February | CJC regulations presented to the Senedd<br>Performance & Governance consultation deadline 3rd February |
| March | Socio Economic Duty comes into force March 31st |
| April | Performance & Governance requirements come into force |
| May | Needs Assessment Completed |
| June | |
| July | Engagement work – what should be our priorities? |
| August | |
| September | CJCs must have their 1st meeting<br>Commence drafting of strategic plan & EQIA ( including  Socio economic duty) |
| October | Last Annual Report ( under LG measure to be completed) |
| November | |
| December | Draft Corporate plan completed in readiness for discussion with democracy in 2022 |
| **2022** | Electoral reforms brought in  - power of general competence, public participation duties, panel performance assessments broadcasting of meetings and new councillor duties<br>Draft Corporate Plan published for consultation March 2022 and final approval Oct 2022 |

# Asesiad Lles / Well-being Assessment

Mae'n rhaid cyhoeddi'r asesiad lles o leiaf blwyddyn cyn cyhoeddi'r cynllun lles.

Mae'r Ddeddf yn nodi y dylid cyhoeddi'r cynllun o fewn blwyddyn i etholiad cyffredinol (Mai 2022), felly mae hyn yn golygu y dylid cyhoeddi cynllun lles newydd y BGC erbyn mis Mai 2023.

The well-being assessment must be published no later than a year before it publishes its well-being plan.

The Act provides that the well-being plan must be published no later than one year after an ordinary election (May 2022), this therefore means that the new PSB well-being plan must be published by May 2023

# Meysydd i'w hystyried ar gyfer cynllunio strategol / Areas to consider for strategic planning

- Gwybodaeth Asesiad o Anghenion
- Ymgysylltu â'r Gymuned
- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Cynllun Adfer LlC – Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad
- Adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (800 tudalen) a Maniffesto y Dyfodol
- Maniffesto CLlLC - Senedd 21 – 26 - Maniffesto ar gyfer Lleoliaeth

- Needs Assessment information
- Community Engagement
- WG Future Wales The National Plan 2040
- WG recovery plan - Leading Wales out of the coronavirus pandemic: a framework for recovery
- WBFG Commissioner Report ( 800 pages) & Manifesto for the Future
- WLGA manifesto - Senedd 21 – 26 - A manifesto for Localism

# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

## Adroddiad Blynyddol 2019/20



# Blwyddyn o Adolygiad

# 1. Cyflwyniad

Croeso i ail Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Nod yr adroddiad yw rhoi trosolwg cryno o beth rydym wedi ei gyflawni yn ail flwyddyn ein cynllun llesiant 5 mlynedd. Mae adroddiad blynyddol yn hanfodol i sicrhau ein bod ni fel bwrdd yn atebol i'r cyhoedd, ac yn gallu hunan-adlewyrchu ar le rydym yn gwneud gwahaniaeth, yn unol â'r 5 ffordd o weithio, ac amlinellu ein cyfeiriad yn y dyfodol.

**Hirdymor**
Mae'n ymwneud ag edrych at y dyfodol ac ystyried sut gall ein gweithredoedd rŵan effeithio ar bethau eraill.

**Integreiddio**
Mae'n ymwneud â gweithio mewn modd integredig ac ystyried sut gall ein hamcanion lles effeithio ar ein partneriaid.

**Cydweithio**
Mae'n ymwneud â gweithio gydag eraill, megis pobl, cymunedau, y sector gwirfoddol a phreifat a sefydliadau sector cyhoeddus eraill.

**Ymgysylltiad**
Mae'n ymwneud â chynnwys pobl a sicrhau fod pobl yn cael cyfle i gymryd rhan a chael dweud eu dweud.

**Atal**
Mae'n ymwneud â stopio problemau rhag digwydd i gychwyn a'u hatal rhag gwaethygu.

Os ydych chi eisiau dysgu rhagor am beth a wnaethom ym mlwyddyn gyntaf ein cynllun, gallwch ei lawrlwytho yma.

# 2. Beth yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)?



Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 roedd rhaid i bob sir sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) er mwyn i bob corff cyhoeddus yn yr ardal gydweithio i wella lles. Mae gwasanaethau Conwy a Sir Ddinbych eisoes yn cydweithio i gefnogi pobl ar draws ein rhanbarth. Felly fe wnaethom achub ar y cyfle hwn i sefydlu un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y rhanbarth ym mis Ebrill 2016.

Mae hyn yn golygu bod cynghorau lleol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, y GIG, Cyfoeth Naturiol Cymru, y sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru a'r gwasanaeth prawf yn dod ynghyd i drafod dulliau o wella lles yn yr ardal a sut y gallwn wneud defnydd gwell o'n hadnoddau i fodloni galw rŵan ac yn y dyfodol.

Mae llesiant yn golygu bod yn iach a hapus ym mhob agwedd o'ch bywyd. Nid iechyd corfforol a lles da yn unig, ond mae'n golygu cael perthnasau cadarnhaol, cymunedau cryf ac amgylchedd iach. Rydym yn helpu gwasanaethau i gydweithio er mwyn gwella:

- lles diwylliannol
- lles economaidd
- lles amgylcheddol
- lles cymdeithasol

Yn 2018 fe gyhoeddom ni gynllun llesiant ar gyfer y rhanbarth. Mae'n canolbwyntio ar yr heriau sy'n wynebu cymunedau a theimlwn fod modd gwella'r heriau hyn drwy gydweithio. Mae ein cynllun yn canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth:

1. Pobl – Cefnogi lles meddyliol da i rai o bob oed
2. Cymuned - Rhoi grym i gymunedau
3. Lle - Cefnogi Gwytnwch Amgylcheddol

Rydym hefyd wedi ymrwymo i 4 egwyddor ychwanegol sy'n cefnogi'r blaenoriaethau canlynol:

a. Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thrin pawb yn gyfartal
b. Cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg
c. Cefnogi pobl er mwyn iddynt gael gafael ar lety iach, diogel a phriodol
d. Osgoi dyblygu gwaith

# 3. Lle rydym ni nawr





a. Pobl – Cefnogi Lles Meddyliol Da

**Yr hyn roeddem am ei gyflawni yn ein hail flwyddyn**

- Dealltwriaeth gyffredin o'r materion, cyfleoedd a blaenoriaethau o ran lles meddyliol.
- Edrych ar ffyrdd o archwilio cyfleoedd ar gyfer y Cynllun Lles a'r strategaeth genedlaethol "Law yn Llaw at Iechyd Meddwl" er mwyn datblygu amcanion gyda'n gilydd i gyflwyno'r flaenoriaeth.
- Cydnabod bod y cynllun cyflawni yn ymwneud â mwy na mater clinigol neu ymateb clinigol a bod lles a gwytnwch yn ymwneud â chymunedau, ffyrdd o weithio ac asedau cymunedau.
- Cydnabod bod yna lawer o bethau da eisoes yn digwydd y gallwn ddysgu ohonynt a bod cydweithio rhwng Timau Gweithredu Lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio yn cynnig y potensial i gyflwyno rhywbeth pwerus iawn.

**Yr effaith a garem**

- Mwy o bobl yn profi lles meddyliol da a llai o bobl yn dioddef pryder ac iselder.
- Llai o hunan-niweidio a chyfraddau is o hunanladdiad.
- Llai o stigma o ran lles meddyliol.

| Yr hyn y dywedom y byddem yn eu gwneud fel gweithredoedd | Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yn hyn | |
|---|---|---|
| 1. Sefydlu a datblygu is-grŵp BGC i arwain y maes blaenoriaeth yma. | Trosglwyddo arweinydd y Flaenoriaeth Lles Meddyliol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Mawrth 2019. Gwnaed gwaith yn ystod y cyfnod hwn i: Sicrhau dealltwriaeth o les meddyliol a'i ddiffinio.<br>• Nodi dangosyddion/mesuryddion lles meddyliol.<br>• Sefydlu llinell sylfaen Lles Meddyliol a lle rydym nawr.<br>• Cyfarfod gyda budd-ddeiliaid allweddol i nodi bylchau presennol ar gyfer meysydd i'w ecsbloetio yn narpariaeth a chefnogaeth bresennol MWB.<br>• Datblygiad dewisiadau prosiect ar gyfer cyflawni blaenoriaeth MWB. | Yn mynd rhagddo |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cafodd y canfyddiadau eu cyflwyno a'u rhannu fel papur i aelodau'r Bwrdd ar 16 Ionawr, 2020. | |
| 2. Cynnal gweithdy gydag ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr i edrych ar faterion lleol o ran lles meddyliol ac adnabod amcanion posibl. | Mae pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer darparu'r Flaenoriaeth Lles Meddyliol wedi cael eu nodi:<br>• Y gymuned ffermio / lles meddyliol pobl sy'n byw yn y wlad<br>• Llyfrgelloedd ar gyfer lles meddyliol<br>• Adnewyddu'r 5 ffordd i les meddyliol<br>• Tîm Gweithredu Lleol / ICAN – Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl a Hunanladdiad<br><br>Disgwyliwyd bod cytundeb ar feysydd darpariaeth yng nghyfarfod mis Mawrth 2020, fodd bynnag cafodd ei ohirio oherwydd Covid-19. O ganlyniad rydym yn aros am gytundeb ar feysydd darpariaeth. Unwaith y bydd cytundeb, bydd gwaith yn dechrau symud ymlaen a chael ei addasu i'r sefyllfa bresennol a chefnogi adferiad Covid-19. | Yn mynd rhagddo |
| 3. Gweithredu'r casgliadau ac argymhellion o'r gweithdy a llunio cynllun gweithredu er mwyn darparu camau nesaf ar gyfer y flaenoriaeth. | Mae'r cynllun yn ei gam ffurfio, ac mae'n bwysig sicrhau bod dull amlasiantaeth yn cael ei weithredu, cael adnoddau priodol, a bod prosiectau a nodwyd yn cael adnoddau digonol er mwyn gallu cyflawni beth a nodir yn y Cynllun. | Yn mynd rhagddo |



| Sut hwyl gawsom ni? |
|---|
| Mae symud y flaenoriaeth hon yn ei blaen wedi bod yn broses araf. Yn y camau cychwynnol bu oedi oherwydd diffyg diffiniad, amcan diffiniol a natur trawsbynciol macro lles meddyliol. Creodd hyn ddiffyg ynni a heriau, yn enwedig pan nad oedd arweinydd cychwynnol y pwnc yn gyfarwydd â'r maes pwnc hwn. Bu mwy o oedi oherwydd trosglwyddiad yr arweinydd pwnc. Rhoddodd gwaith mwy diweddar y maes blaenoriaeth mewn safle gwell; diffinio lles meddyliol, pennu mesuriadau llinell sylfaen, sefydlu meysydd o arfer da, a nodi ystod o brosiectau a fydd yn effeithio ar les meddyliol. Bydd detholiad o brosiectau a ffurfio timau prosiect amlasiantaethol yn ein galluogi i symud y flaenoriaeth yn ei blaen yn gynt. |

## b. Cymunedau - Rhoi grym i gymunedau

## Yr hyn roeddem am ei gyflawni yn ein hail flwyddyn

- Deall pa waith sydd eisoes yn digwydd, a ble y gallai'r BGC ychwanegu'r gwerth mwyaf o ran rhoi grym i'n cymunedau.
- Ymgynghori gyda gweithwyr proffesiynol ar feysydd o angen a cheisio datblygu camau nesaf y BGC tuag at fodloni'r anghenion hynny.
- Deall beth fyddai'n cael ei ystyried yn llwyddiant, a phwy ddylai gymryd rhan wrth ddylunio a chyflwyno.

## Yr effaith a garem

- Grwpiau cymunedol sy'n ffynnu ac asedau sy'n bodloni anghenion lleol.
- Gwasanaethau sy'n gweithio'n well gyda'i gilydd.
- Gwasanaethau sydd yn darparu gwell gwerth am arian.
- Pobl yn cymryd rhan ac yn dweud eu dweud o ran gwella gwasanaethau.

| Yr hyn y dywedom y byddem yn eu gwneud fel gweithredoedd | Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yn hyn | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. Datblygu'r Camau Nesaf i roi Grym i Gymunedau. | Cynhaliwyd gweithdy ar 27 Mehefin 2018, gyda dros 40 o weithwyr proffesiynol a chynrychiolaeth dda ar draws sefydliadau partner. Yn unol ag egwyddor y BGC o adeiladu ar addunedau presennol o gynlluniau lles sefydliadau, cafodd y cynrychiolwyr wybodaeth am addunedau presennol a gofynnwyd iddynt ystyried ardaloedd o angen lle byddai cydweithio yn ychwanegu gwerth, gan ganolbwyntio ar y themâu canlynol:<br>i. Tai<br>ii. Cyfleoedd Cyflogaeth<br>iii. Cynyddu Gallu<br>iv. Darparu Cefnogaeth Iechyd a Lles<br>v. Isadeiledd<br><br>Ystyriwyd allbwn y gweithdy yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi, gan gytuno ar dri maes gwaith ar gyfer y flaenoriaeth lle'r oedd y Bwrdd yn teimlo y byddai'n ychwanegu gwerth drwy ymyrraeth gynnar, gan ganolbwyntio ar y dimensiwn lleol, a chynnwys setiau gwahanol o bartneriaid. Mae'r rhain wedi'u manylu isod. | Wedi'i gwblhau | | |

| | | |
|---|---|---|
| 2. Bydd rhagnodi cymdeithasol yn cefnogi anghenion lles unigolion a'n cymunedau, ac o ganlyniad bydd yn arwain at lai o ragnodiadau meddygol a bydd angen llai o wariant anfeddygol ar wasanaethau oherwydd cyflyrau sy'n ymwneud â ffordd o fyw.<br>Bydd pobl hefyd yn cael eu galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnodau hirach. | Yn dilyn sefydlu tîm amlasiantaethol sy'n cynnwys cydweithwyr o BIPBC, Iechyd y Cyhoedd, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol Conwy a Sir Ddinbych, nodwyd cyfleoedd i gysylltu ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol i lwybrau rheoli pwysau presennol a newydd yn well.<br><br>Roedd staff BCU yn penodi staff i arwain ar eu prosiect rheoli pwysau newydd ym mis Mawrth 2020, pan roedd y tîm amlasiantaeth am gyfarfod eto. Oherwydd cychwyn cyfnod clo'r coronafeirws, cafodd ei ohirio.<br><br>Serch hynny, gwnaed cysylltiadau allweddol a datblygwyd Fframwaith Rheoli Perfformiad i fonitro llwyddiant y gwaith. Cytunwyd ar feysydd gwaith/rhaglen ar gyfer y timau hefyd, yn bennaf:<br>• Sicrhau cysylltiadau effeithiol rhwng awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol fel bod preswylwyr sydd ar lwybrau rheoli pwysau clinigol yn cael cynnig cefnogaeth gan lyw-wyr cymunedol;<br>• Nodi rhwystrau rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, ac ystyried sut i fynd i'r afael â nhw;<br>• Nodi bylchau mewn darpariaeth gymunedol sy'n hyrwyddo iechyd gwell, ac ystyried sut i fynd i'r afael â'r bylchau hynny. | Yn mynd rhagddo |
| 3. Cefnogi tenantiaid a'r rhai sydd mewn perygl o ddigartrefedd yn well.<br>Nid yn unig y bydd hyn yn arwain at lai o ddigartrefedd a thenantiaethau mwy sefydlog, ond bydd yn lliniaru risgiau iechyd cysylltiedig, ac yn cefnogi sector rhentu o ansawdd gwell. | O ganlyniad i gapasiti, nid yw'r gwaith wedi dechrau eto. | Heb symud ymlaen |
| 4. Cynllun Gweithwyr Cefnogi Dementia er mwyn cefnogi dioddefwyr dementia a'u gofalwyr yn well.<br>Bydd partneriaid BGC yn gweithio tuag at fod yn sefydliadau sydd yn addas i bobl â dementia sydd yn helpu pobl i fyw'n annibynnol yn hirach. | Mae Rhaglen Ymwybyddiaeth O Ddementia Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Arweinir Gan y Gymuned wedi'i sefydlu a'i alluogi gan Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru. Dros y 12 mis diwethaf, gallwn adrodd y gweithgarwch canlynol:<br><br>• Cynhaliwyd 3 cyfarfod rhwydwaith gyda dros 105 o bobl, gan gynnwys partneriaid statudol, busnesau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau cymunedol lleol ac unigolion. | Yn mynd rhagddo |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae 6 Brecwast Busnes wedi cael eu cynnal, a daeth 54 o bobl, gan ymgysylltu gyda busnesau lleol yn Rhuthun, y Rhyl, Llanelwy, Corwen a Llangollen i godi ymwybyddiaeth o Ddementia.<br><br>• Mae trefi wedi dechrau gweithio tuag at Statws Cyfeillgar i Ddementia – gan ddilyn ymlaen o waith 3 ardal ym Mhrestatyn, Dinbych a Rhuddlan, a sefydlwyd 5 Grŵp Gweithredol Ymwybyddiaeth o Ddementia pellach yn Llanelwy, Rhuthun, y Rhyl, Llangollen a Chorwen. Maent yn cael eu cefnogi gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a'u gweithredu gan wirfoddolwyr.<br><br>• Mae 6 aelod o staff Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (Pencampwyr Dementa) wedi darparu sesiynau Ymwybyddiaeth o Gyfeillion Dementia i 332 o bobl.<br><br>• Darparwyd ychydig o dan £20,000 gan Raglen Ymwybyddiaeth o Ddementia a Arweinir gan y Gymuned i 16 sefydliad a 2 unigolyn i gefnogi codi ymwybyddiaeth o Ddementia a darparu gweithgareddau i bobl sy'n byw â Dementia, yn ogystal â'i gofalwyr yng nghymunedau lleol Sir Ddinbych. Cafodd hyn ei gefnogi gan ein ffrydiau cyllid eraill, gan gynnwys Deddf yr Eglwys yng Nghymru Sir Ddinbych, sydd â Dementia fel un o'u meini prawf blaenoriaeth ac sydd wedi galluogi arian cyfatebol i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau Dementia.<br><br>• Cynhaliwyd cwrs hyfforddiant ar y cyd gyda 'Step Inside Dementia' Cymdeithas Alzheimer's, gydag 15 o bobl. Roedd 4 arall wedi'u cynllunio, ond roedd yn rhaid eu canslo oherwydd pandemig COVID19.<br><br>• Mae rhaglen ymwybyddiaeth o Ddementia Sir Ddinbych wedi cael ei hyrwyddo'n gyson ar y cyfryngau cymdeithasol a drwy sianeli cyfryngau Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, gan | |

gynnwys Rhwydwaith #GwiroddolwyrSirDdinbych a'r Rhwydwaith Lles.

- Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi cyhoeddi dros 80 neges ar Facebook gan gyrraedd bron i 25,000 o bobl.
  Mae hyn wedi arwain at tua 1,500 o ryngweithio (hoffi, sylwadau, rhannu'r neges).

- Rydym wedi trydar 161 o weithiau ar bynciau yn ymwneud â dementia.
  Roedd 25 tweet yn rhannu gwybodaeth am ein haelodau/partneriaid. Mae ein tweets wedi cyrraedd 90,000 o bobl gan arwain at 2,500 o ryngweithiadau (hoffi, ymateb, aildrydar).

- Cyhoeddom 5 datganiad i'r wasg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gan gynnwys lansiad y Rhwydwaith Ymwybyddiaeth o Ddementia, 2 rhaglen grant, ac un derbynnydd grant llwyddiannus. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg hefyd, yn ymwneud â'u llwyddiant wrth ddod yn Gymuned Cyfeillgar i Ddementia.

Mae rhaglen darpariaeth Ymwybyddiaeth o Ddementia Sir Ddinbych yn cael ei ail-bwrpasu i ystyried y sefyllfa COVID19. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynnal ein digwyddiadau rhwydweithio ar-lein; bydd cyfarfod nesaf Rhwydwaith Ymwybyddiaeth o Ddementia Sir Ddinbych ym mis Mehefin 2020 yn cael ei gynnal dros Zoom ac rydym yn gweithio i gefnogi gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar-lein / dros y ffôn drwy'r Gwasanaeth Cefnogaeth Gymunedol.

- Yn ychwanegol at hynny, mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych nawr yn hyrwyddo ei gwrs E-ddysgu Dementia y gall cymunedau lleol gael mynediad ato yn eu cartrefi eu hunain, ac mae'n gweithio'n agos gyda Chyngor

| | | |
|---|---|---|
| | Sir Ddinbych ar raglen Hyfforddiant Dementia i'w cynnal yn 2020-21 (ymchwilio i sut y gellir darparu hyn yn yr hinsawdd sydd ohoni).<br><br>Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych wedi arwain ar y gwaith hwn o dan y flaenoriaeth ymrymuso'r gymuned, wrth weithio'n agos gyda phartneriaid statudol, gan gynnwys BIPBC a CSDd, sydd wedi cael achrediad cymunedau cyfeillgar i ddementia yn yr un cyfnod. Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych wedi gweithio'n agos gyda phrosiect Gweithwyr Cefnogi Dementia a noddir gan Gronfa Gofal Integredig CSDd i sicrhau cysylltiadau cadarn rhwng gweithgarwch gwirfoddol a chymunedau, yn ogystal â gwasanaeth Cefnogaeth Gymunedol CSDd. | |

**Sut hwyl gawsom ni?**

Mae'r cysylltiadau a wnaed rhwng cydweithwyr o Iechyd, Awdurdodau Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch sut y gall presgripsiynu cymdeithasol helpu i fynd i'r afael â mater penodol wedi cael ei groesawu gan bob parti, a dylai alluogi ffordd o weithio system gyfan i fynd i'r afael â phroblemau parhaus. Trafodwyd cynlluniau am sut y gall prosesau/llwybrau weithio, a sut y gellir eu cofnodi i sicrhau cyd-ddealltwriaeth. Wrth symud ymlaen, bydd angen talu sylw ofalus i sicrhau bod ymarfer yn dilyn damcaniaeth, a hefyd i sicrhau ein bod yn gallu parhau i ofyn i'n hunain os, a sut y gellir gwella pethau. Mae'r egwyddorion hyn yn bwysig er mwyn sicrhau newid cynaliadwy ac effeithiol.



## c. Lle – Cefnogi Cadernid Amgylcheddol

**Yr hyn roeddem am ei gyflawni yn ein hail flwyddyn**

- Cefnogi pobl a chymunedau i sylwi pa mor bwysig yw'r amgylchedd naturiol a deall pa wahaniaeth cadarnhaol y gallant ei wneud i leihau eu heffaith arno.
- Dechrau mynd i'r afael â materion amgylcheddol megis newid hinsawdd drwy hyrwyddo ffyrdd y gallwn leihau ein hôl troed, megis ailgylchu, gwella arbed ynni, lleihau allyriadau carbon, a bod yn fwy gwyrdd yn gyffredinol.
- Deall beth mae ein sefydliadau partner yn ei wneud o ran mynd i'r afael â'u hôl troed ecolegol.

Ystyried pa fframweithiau rydym yn gweithio tuag atynt, a sut y gallwn ddod â hyn ynghyd. Fel rhan o hyn, rydym am wella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau a'n cyfleusterau.

- Canolbwyntio ar gaffael cynaliadwy (gwneud y mwyaf o mantais gymunedol yn bennaf, a sicrhau nad ydym yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd pan rydym yn prynu nwyddau a gwasanaethau).

**Yr effaith a garem**

- Mae ein cymunedau a sefydliadau partner yn gwneud eu rhan ac y cymryd camau rhagweithiol i leihau eu hôl troed ac yn sicrhau bod yr amgylchedd lleol yn cael ei reoli'n addas ac yn helpu bywyd gwyllt a natur i ffynnu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn darparu lle i'n preswylwyr, ymwelwyr a gweithwyr i wneud y mwyaf o, a manteisio ar eu hiechyd a'u lles.
- Gwella cysondeb rhwng sefydliadau partner BGC , drwy weithio tuag ar yr un polisïau, safonau a thargedau amgylcheddol.



| Yr hyn y dywedom y byddem yn eu gwneud fel gweithredoedd | Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yn hyn | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. Gweithio gyda'n partneriaid BGC i ddatblygu fframwaith ar gyfer ein gwaith amgylcheddol, fel ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un nod. | Cymeradwywyd Polisi Amgylcheddol Cyffredin gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r gweithgor Amgylcheddol wedi cael y dasg o drafod ymarferoldeb cydlynu gwaith. Mae canllaw Ynni Llywodraeth Cymru ar gasglu data yn cael ei adolygu gan Reolwyr Ynni ac mae'r Cwmni Ymgynghoriaeth Aether yn arwain hyn. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ceisio hyn ym mis Mawrth ac Ebrill 2020. Mae ymrwymiad cadarn i gydweithio, fodd bynnag, i osgoi dyblygiad mae'r gwaith ar ymrwymiad 1 (Carbon ac Ynni) wedi cael ei ohirio nes y cyhoeddir Ganllaw Llywodraeth Cymru yng ngwanwyn 2020 fel bod y data yn adlewyrchu'r canllaw. Rydym yn parhau i aros am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar sut i fesur cwmpas a beth y gellir ei wrthbwyso (secwestriad). Bydd y grŵp yn canolbwyntio ar ymrwymiad 2 sy'n cynnwys camau gweithredu bioamrywiaeth, i weld beth y gellir ei gasglu ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod nesaf, ym mis Ebrill 2020.<br><br>Bydd y grŵp yn edrych ar brosiectau cydweithio y gellir eu datblygu i ddefnyddio dyraniad nawdd bach. Mae rhan o'r nawdd grant cynhaliaeth BGC Gogledd Cymru wedi cael ei defnyddio i benodi Dyfodol Cynaliadwy Netherwood i gynghori ar Dull o Weithio Newid Hinsawdd Rhanbarthol Gogledd Cymru. Bydd y gwaith hwn yn adrodd ym mis Mawrth 2020 ac yn cynnwys adolygiad o'r dulliau presennol i liniaru | | Yn mynd rhagddo | |

| | | |
|---|---|---|
| | newid hinsawdd, grwpiau a gweithgareddau ar draws ardaloedd BGC Gogledd Cymru. Mae Dyfodol Cynaliadwy Netherwood yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ystod y cyfnod hwn. | |
| 2. Gwaith gyda chymunedau i ddatblygu addewidion amgylcheddol a newidiadau gwyrdd y gallwn ei wneud i leihau ein effaith ar yr amgylchedd. | Lansiwyd yr Addewidion Gwyrdd Cymunedol ym mis Ionawr 2020. Mae 5 addewid cymunedol wedi ei dderbyn hyd yma. Datblygwyd cyfres o ohebiaeth ar gyfer y flwyddyn i gadw'r addewidion yn llygad y cyhoedd. | Wedi'i gwblhau |
| 3. Edrych ar faterion amgylcheddol sy'n effeithio ar y rhanbarth nad oes modd i ni atgyweirio ein hunain, megis amddiffynfeydd môr a lleihau'r swm o becynnau yn ein siopau. | Gohiriwyd diweddariad pellach i'r amddiffynfa fôr yn hen golwyn oherwydd i gyfarfod BGC gael ei ganslo, a bydd yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod BGC yn y dyfodol. Nid oes meysydd pellach wedi'u nodi ar gyfer rhoi pwysau arnynt hyd yma. Fodd bynnag, mae Awdurdodau Lleol ar draws Gogledd Cymru wedi datgan Argyfwng Amgylcheddol. Mae cynlluniau gweithredu ar sut i leihau ôl troed carbon yn sylweddol yn cael eu datblygu a bydd arferion da yn cael eu rhannu. | Yn mynd rhagddo |
| 4. Edrych ar ein prosesau caffael a nodi sut y gallwn wneud y mwyaf o fuddion cymunedol o ddatblygiadau adeiladau (e.e. drwy Cytundebau Adran 106 – cytundebau cyfreithiol yw'r rhain rhwng awdurdodau lleol a datblygwyr ar gyfer sefyllfaoedd pan efallai bydd angen mesuriadau i leihau effaith datblygiadau ar y gymuned). | Rydym wedi ymateb i archwiliad Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gaffael a thystiolaethu buddion caffael – gan gynnwys buddion amgylcheddol. Mae cynnig amlinellol ar gyfer bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn cynnwys ffrwd waith i ganolbwyntio ar gaffael. Dyma faes lle gellir cyflawni gostyngiad carbon sylweddol. | Yn mynd rhagddo |
| 5. Gweithio gyda'n timau cynllunio i sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael eu trin wrth gynllunio datblygiadau newydd. | Nid oes unrhyw ddatblygiadau newydd wedi eu gwneud ar y cam gweithredu hwn yn ystod y cyfnod. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu drwy is-grwpiau partneriaeth rhanbarthol. | Heb symud ymlaen |

## Sut hwyl gawsom ni?

Ar ddiwedd yr ail flwyddyn rydym yng nghategori 'bod yn anturus'. Mae lansiad ein haddewidion gwyrdd wedi derbyn ymateb cadarnhaol. Er ein bod yn y dyddiau cynnar o hyd, mae'r ymateb i'r addewidion hyd yma yn dangos bod llawer o waith cadarnhaol yn parhau yn ein cymunedau. Wrth i ni ddatblygu cronfa ddata o addewidion, byddwn yn gallu rhannu'r arferion da hyn, ac yn gobeithio y gallwn annog cymunedau eraill i wneud yr un peth a chreu sgil-effaith ar gyfer newid ehangach.

Er nad yw wedi cael ei weithredu eto, mae symudiadau cadarnhaol tuag at ffordd ranbarthol o weithio ar gyfer newid amgylcheddol sector cyhoeddus, ond mae'n bwysig ein bod yn gwneud hyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i osgoi dyblygiad, felly bu penderfyniad i oedi nes y bydd canllawiau yn cael eu rhannu a'r adroddiad ymgynghoriaeth ar gyfleoedd rhanbarthol yn cael ei gyhoeddi. Er nad yw'r pryderon ynghylch yr amddiffynfeydd môr wedi'u trafod, bu cynnydd o ran cael nawdd ar gyfer mesurau dros dro.

Bu'n ofynnol yn chwarter olaf y flwyddyn i ohirio rhai cyfarfodydd ac ni welwyd cynnydd, oherwydd pandemig y coronafeirws.  Mae'n amlwg hefyd, er ein bod yn parhau i ddangos cynnydd, mae'n araf oherwydd nifer y swyddogion a therfynau amser tynn eraill.

# 4. Adlewyrchu ar Flwyddyn 2



Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn hunan-adlewyrchiad o'r cynnydd rydym wedi ei wneud, ac yn ein hatgoffa i fod yn fwy agored a thryloyw drwy nodi beth rydym wedi ei gyflawni, a ydym wedi gwneud pethau'n dda, ac ar beth fyddwn yn canolbwyntio arno i wella yn y dyfodol.  Mae'r BGC yn bartneriaeth strategol sy'n gorwedd o fewn sawl partneriaeth rhanbarthol ac is-ranbarthol arall yng Ngogledd Cymru.

Mae chwarter olaf y flwyddyn ariannol wedi cael ei dylanwadu gan bandemig byd-eang y coronafeirws. Mae cyfnod clo Clovid-19 wedi rhoi stop ar sawl prosiect y BGC oherwydd gofynion brys i ddatblygu gwasanaethau, systemau a phrosesau newydd oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod. Mae canolbwyntio ar strategaeth a gweithredu wedi'i thrawsnewid er mwyn cynllunio rhag argyfwng a pharhad busnes.  Drwy gydol y cyfnod heriol hwn, mae arweinyddiaeth y BGC wedi parhau i gydweithio er mwyn cefnogi'r gymuned a phwysau gwasanaeth y naill a'r llall, yn ogystal â darparu gwasanaethau hanfodol yn ystod yr argyfwng byd-eang.

Roedd cyfarfod y BGC wedi'i drefnu ar gyfer 15 Mawrth, ond erbyn hynny roedd gwasanaethau yn mynd i'r afael â Covid-19 felly gohiriwyd y cyfarfod. Wrth i'r cyfnod clo lacio, bydd partneriaid yn parhau i gyfrannu at reoli'r feirws, a'r adferiad economaidd-gymdeithasol. Bydd cyfarfod y BGC nesaf yn cael ei gynnal ddiwedd mis Gorffennaf. Efallai bydd trafodaeth yn y cyfarfod hwnnw ynghylch a yw'r blaenoriaethau yn parhau i fod yr un fath, neu a oes amcanion eraill i'w trafod.

# 5. Cydweithio – Meddwl yn Fyd-Eng



Rydym wedi bod yn cysylltu partneriaethau eraill i osgoi dyblygu gwaith ac i rannu syniadau. Rydym wedi…

- siarad â’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Lles.
- cael diweddariadau ar Fargen Dwf Gogledd Cymru.
- trafod y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych.
- bod yn monitro Brexit ac edrych ar ffyrdd i gefnogi ein gilydd yn ystod y broses.
- bod yn edrych ar risgiau allweddol yn y maes a thrafod beth allwn ei wneud i helpu ein gilydd. Rydym wedi datblygu cofrestr risg i’n helpu i fonitro ein risgiau lleol.
- wedi ymateb i adroddiad Gwasanaethau Llywodraeth Leol mewn Cymunedau Gwledig Swyddfa Archwilio Cymru, ac wedi cymhwyso’r argymhellion gan ddefnyddio adnodd prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi ein helpu i asesu yr effaith y gall ein blaenoriaethau ei gael ar gymunedau gwledig.
- parhau i ddysgu mwy am sefydliadau ein gilydd. Ym mis Gorffennaf, fe ddysgom ni am Gyfoeth Naturiol Cymru ac aethom ar ymweliad safle i ddysgu rhagor am eu prosiect partneriaeth Conwy Uwch, ar y cyd gyda’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Nyffryn Conwy.
- rhannu arferion da gan ein sefydliadau, megis dysgu am beilot cyfieithu Iaith Arwyddion Prydain sydd wedi bod yn digwydd yng Nghyngor Conwy.
- siarad â Gwelliant Cymru a thrafod y gwahanol ffyrdd y gall y gwasanaeth ein helpu o bosib, i gyflawni ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen.
- siarad â Gwasanaeth Ynni Cymru am y gefnogaeth gallant ei gynnig a sut gall cynllunio ynni rhanbarthol helpu i gyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus. Rydym nawr yn edrych ar ffyrdd y gallwn gydweithio ar ein blaenoriaeth amgylcheddol.

# 6. Cael ein Herio



Fel unrhyw bartneriaeth, mae'n bwysig ein bod yn cadw cydbwysedd.

- Rydym wedi bod yn cynnal cyfarfodydd agored, ac mae cofnodion a phapurau'r BGC yn cael eu cyhoeddi ar wefan BGC Conwy a Sir Ddinbych.
- Rydym yn cyhoeddi newyddlenni ar ôl pob cyfarfod fel y gall pobl ddarllen beth rydym yn ei wneud mewn tameidiau rhwydd i'w darllen.
- cael trafodaethau rheolaidd am yr heriau arweinyddiaeth sefydliadol a sut gallwn helpu ein gilydd.
- ymateb i adolygiadau Swyddfa Archwilio Cymru o'r BGC a llunio cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion cenedlaethol.

O fis Mai 2019 ymlaen, mae'r BDC wedi bod yn atebol i'r Cyd-bwyllgor Craffu newydd rhwng Conwy a Sir Ddinbych. Eto, mae'r cyfarfodydd hyn ar agor i'w cyhoedd ac mae croeso i unrhyw un fynd iddynt. Gellir canfod manylion o'r cyfarfodydd ar wefannau Cyngor Sir Conwy neu Sir Ddinbych.

# 7. Cymryd Rhan



Rydym am i chi gadw mewn cysylltiad a chymryd rhan yn ein gwaith. Gallwch:

- Ddod i un o'n cyfarfodydd – mae'r dyddiadau a'r rhaglenni i gyd yn cael eu cyhoeddi yma
- Darllenwch ein newyddlenni yma
- Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol – Facebook a Twitter
- Cymryd rhan a rhannu eich barn drwy wefan y BGC – https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/cy/

Ar ran y Tîm Cynllunio Strategol
Cyngor Sir Ddinbych
Blwch Post 62
Rhuthun
LL15 9AZ

countyconversation@conwy.gov.uk

01824 706516
Gwasanaeth Testun BT: Gall cwsmeriaid â nam ar eu clyw neu amhariad i'w lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor drwy ddeialu 18001 cyn y rhif sydd eu hangen arnynt.

Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan ddefnyddio cyfieithydd Iaith Arwyddion drwy wasanaeth InterpretersLive! a ddarperir gan Sign Solutions

– ewch i https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Contact-Us/Sign.aspx

Rydym yn hapus i gyflenwi'r ddogfen hon mewn print bras, dogfen sain a braille.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Hydref 2019
EITEM RHAGLEN 7b

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi i'w gyhoeddi i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru (2006) a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

O ran tîm yr astudiaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru, y rheolwr prosiect oedd Nick Selwyn ac roedd y tîm yn cynnwys Steve Frank, Euros Lake, Matt Brushett, Mary Owen a Sara Leahy dan gyfarwyddyd Huw Rees.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Crynodeb | 5 |
| | Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn annhebygol o wireddu eu potensial oni bai y rhoddir rhyddid iddynt i weithredu'n fwy hyblyg ac i feddwl a gweithredu'n wahanol | 5 |
| | Argymhellion | 11 |
| 1 | Nid yw cyrff cyhoeddus wastad wedi cymryd y cyfle i fynd ati'n effeithiol i drefnu gwaith BGCau, nac ychwaith i ddarparu adnoddau ar eu cyfer | 13 |
| | Mae BGCau yn adeiladu ar waith Byrddau Gwasanaethau Lleol ac ar y cyfan mae ganddynt yr aelodaeth gywir, ond mae presenoldeb mewn cyfarfodydd yn amrywio ac nid yw rhai rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cynnwys bob amser | 14 |
| | Mae BGCau yn ymgysylltu â dinasyddion, ond nid ydynt yn eu cynnwys yn eu gwaith | 17 |
| | Mae'r rhan fwyaf o BGCau wedi mabwysiadu'r Amodau Gorchwyl a nodir yn y Ddeddf | 19 |
| | Mae agendâu BGCau yn amrywio'n eang ac nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru ar asesiadau effaith yn ddigon clir i gyfarwyddo gweithgarwch mewn meysydd allweddol | 20 |
| | Mae gan BGCau farn gymysg ynglŷn â manteision y cyngor y maent yn ei gael gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | 22 |
| | Mae diffyg cyllid sydd wedi'i neilltuo'n cyfyngu ar waith ac effaith BGCau | 23 |
| 2 | Ni chreffir yn gyson ar BGCau ac nid ydynt yn cael eu dwyn i gyfrif yn gyson ychwaith | 26 |

3 Er bod cyrff cyhoeddus yn gwerthfawrogi BGCau, nid oes cytundeb ynglŷn â sut y dylai eu rôl esblygu 30

Mae partneriaid yn cefnogi parhad BGCau, ond mae ganddynt farn gymysg ynglŷn â beth ddylai eu rôl fod yn y dyfodol 31

Mae BGCau yn debyg ar y cyfan i Bartneriaethau Cynllunio Cymunedol yn yr Alban, ond mae partneriaid yn yr Alban yn cyflawni prosiectau ac yn cydgysylltu rhaglenni cyllido hefyd 36

Cyfrifoldeb pob cyngor yw penderfynu ar waith partneriaeth strategol yn Lloegr ac mae hyn wedi arwain at ddulliau gwahanol iawn 38

Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg yr adolygiad 43

# Adroddiad Cryno

## Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn annhebygol o wireddu eu potensial oni bai y rhoddir rhyddid iddynt i weithredu'n fwy hyblyg ac i feddwl a gweithredu'n wahanol

1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yn nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, a helpu i atal problemau megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd.

2 Mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi disodli'r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn ardal pob awdurdod lleol. Mae'n ofynnol i bob bwrdd asesu'r sefyllfa o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal a phennu amcanion sydd wedi'u bwriadu i gynyddu i'r eithaf ei gyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol.

3 Aelodau Statudol pob BGC yw'r cyngor lleol, y bwrdd iechyd lleol, yr awdurdod tân ac achub a Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ogystal â'r aelodau statudol hyn, bydd pob BGC yn gwahodd y canlynol i gyfranogi: Gweinidogion Cymru, prif gwnstabliaid, comisiynydd yr heddlu a throseddu ar gyfer eu hardal, rhai gwasanaethau prawf, awdurdod parc cenedlaethol (os yn berthnasol), ac o leiaf un corff sy'n cynrychioli mudiadau gwirfoddol lleol perthnasol. Gall BGCau wahodd sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus i gyfranogi hefyd, er enghraifft darparwyr addysg megis colegau a phrifysgolion a chymdeithasau tai, a chyrff preifat megis fforymau busnes.

4 Caiff BGCau eu hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru fel y corff allweddol sy'n gyfrifol ar y cyd am wella llesiant cymunedau ledled Cymru ac ar hyn o bryd mae 19 BGC - Arddangosyn 1.


5 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob BGC gynnal asesiad llesiant bob pum mlynedd. Mae hefyd yn ofynnol i BGCau baratoi a chyhoeddi cynllun (y 'cynllun llesiant lleol') sy'n nodi eu hamcanion a'r camau y byddant yn eu cymryd i'w cyflawni. Rhaid i'r cynllun nodi pam fod y BGC o'r farn y bydd ei amcanion yn cyfrannu, yn ei ardal leol, at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol a sut y mae wedi rhoi ystyriaeth i'w asesiad o lesiant lleol wrth bennu ei amcanion a'r camau i'w cymryd. Fe wnaeth yr holl BGCau gwblhau asesiadau llesiant a chyhoeddi Cynlluniau Llesiant Lleol yn unol â'r terfynau amser statudol.

## Arddangosyn 1 – BGCau yng Nghymru

Mae 19 BGC: un ym mhob awdurdod lleol ac eithrio BGC Cwm Taf sy’n cwmpasu Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf (fe’i sefydlwyd cyn i fwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr gael ei hail-alinio ag ôl troed Cwm Taf), BGC cyfunol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn a BGC cyfunol ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych.

### Byrddau gwasanaethau cyhoeddus

1 Sir Gaerfyrddin
2 Ceredigion
3 Conwy and Sir Ddinbych
4 Gwynedd and Ynys Môn
5 Sir Fynwy
6 Sir Benfro
7 Powys
8 Blaenau Gwent
9 Pen-y-bont ar Ogwr
10 Caerffili
11 Sir y Fflint
12 Merthyr Tudful and Rhondda Cynon Taf
13 Castell-nedd Port Talbot
14 Abertawe
15 Torfaen
16 Wrecsam
17 Bro Morgannwg
18 Caerdydd
19 Casnewydd



6 Wrth gynnal eu hasesiadau o lesiant lleol a’r Cynllun Llesiant Lleol, rhaid i BGCau ymgynghori’n eang. Dylai’r BGC geisio cynnwys y bobl a’r cymunedau yn yr ardal, gan gynnwys plant a phobl ifanc, siaradwyr Cymraeg a’r rhai â nodweddion gwarchodedig, ym mhob agwedd ar ei waith. Bydd pob BGC yn cynnal adolygiad blynyddol o’i gynllun gan ddangos ei gynnydd. Ar hyn o bryd mae 101 o amcanion llesiant wedi’u pennu ar draws yr 19 BGC, â’r rheiny’n amrywio o ddau yng Ngwynedd ac Ynys Môn i 15 yn Wrecsam. Mae 462 o gamau a chamau gweithredu i gyflawni’r 101 o amcanion llesiant. Sut y mae’r 101 o amcanion llesiant yn cyfateb orau â’r saith nod llesiant cenedlaethol fel a ganlyn:

**Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – 12 amcan llesiant

**Cymru lewyrchus** – 12 amcan llesiant

**Cymru gydnerth** – chwe amcan llesiant

**Cymru iachach** – 25 amcan llesiant

**Cymru sy’n fwy cyfartal** – 12 amcan llesiant

**Cymru o gymunedau cydlynus** – 25 amcan llesiant

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu** – pedwar amcan llesiant

**Eraill** – pum amcan llesiant (pob un â ffocws ar ‘drawsnewid’ gwasanaethau cyhoeddus)

Ffynhonnell y ddelwedd: Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

7 Fe wnaeth y Ddeddf hefyd greu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ('y Comisiynydd'). Dyletswyddau'r Comisiynydd yw 'hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn arbennig er mwyn gweithredu fel gwarchodwr gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i roi rhagor o ystyriaeth i effaith hirdymor yr hyn a wnânt'. Yn benodol, mae gan y Comisiynydd orchwyl i fonitro ac asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant a bennwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni[1].

8 Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rydym wedi archwilio sut y mae BGCau yn gweithredu; gan edrych ar eu haelodaeth, eu hamodau gorchwyl, amlder a ffocws cyfarfodydd, y modd y maent wedi'u halinio â phartneriaethau eraill, adnoddau a threfniadau craffu. Adolygiad cam un o weithio mewn partneriaeth yw hwn a bydd adroddiad pellach yn cael ei gyhoeddi ar ôl adolygiad dilynol yn 2020[2]. Nid ydym wedi adolygu cynlluniau ac asesiadau llesiant. Mae Atodiad 1 yn nodi ein dulliau archwilio, sy'n cynnwys arolwg o aelodau BGCau, adolygiad o ganllawiau statudol, agendâu, adroddiadau a chofnodion BGCau a grwpiau ffocws gydag ystod o aelodau o BGCau a sylwebyddion. Mae ein canfyddiadau hefyd wedi'u bwriadu i ategu'r **adolygiad o bartneriaethau strategol** sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ar y cyfan, rydym wedi dod i'r casgliad canlynol: **Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn annhebygol o wireddu eu potensial oni bai y rhoddir rhyddid iddynt i weithredu'n fwy hyblyg ac i feddwl a gweithredu'n wahanol.**

1 Yn 2017, darparodd y Comisiynydd adborth unigol ar gyfer yr 19 BGC ar eu hasesiadau llesiant drafft. Fe wnaeth y Comisiynydd hefyd gyhoeddi **Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer dyfodol gwell**, adolygiad a oedd yn crynhoi materion allweddol i gyrff cyhoeddus ddysgu ohonynt o'r asesiadau llesiant cychwynnol yn 2017.

2 Bydd yr adolygiad Cam Dau yn ystyried cymhlethdod dulliau darparu partneriaethau gan fwrw golwg ar grŵp unigryw mewn cymdeithas â phroblemau/anghenion amlweddog sy'n galw ar ac yn defnyddio ystod o wahanol gyrff cyhoeddus ar wahanol adegau er mwyn canfod sut mae sefydliadau'n gweithio'n wahanol i fynd i'r afael â'r anghenion hyn. Ein gwrthrych olrhain yw'r rhai sy'n cysgu ar y stryd, grŵp mewn cymdeithas sy'n aml â phroblemau anhydrin, sy'n galw'n rheolaidd ar ystod eang o wasanaethau cyhoeddus ac yn eu defnyddio'n aml ac y mae darparu gwasanaethau ar eu cyfer yn gryn her oherwydd eu natur agored i niwed, eu hamgylchiadau a'u ffordd o fyw. Bydd y dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar benderfynu a yw partneriaid yn cydweithio mewn gwirionedd i sicrhau gwelliant ac a yw cyrff cyhoeddus yn mynd ati ar y cyd i wneud penderfyniadau, defnyddio adnoddau a blaenoriaethu gweithgarwch i sicrhau newid.

## Nid yw cyrff cyhoeddus wedi cymryd y cyfle i fynd ati'n effeithiol i drefnu gwaith BGCau, nac ychwaith i ddarparu adnoddau ar eu cyfer a'u hintegreiddio

9 Er bod BGCau yn adeiladau ar waith Byrddau Gwasanaethau Lleol a bod ganddynt yr aelodaeth gywir ar y cyfan, nid yw rhai partneriaid allweddol yn cael eu cynnwys yn weithredol, ac mae presenoldeb afreolaidd a diffyg ymgysylltu'n cyfyngu ar gynnydd. Mae'r rhan fwyaf o BGCau yn glir ynglŷn â'u cylch gorchwyl, gan fabwysiadu'r amodau gorchwyl enghreifftiol a nodir yn y Ddeddf. Mae ffocws gwaith BGCau yn amrywio'n eang, sy'n adlewyrchiad o amgylchiadau a blaenoriaethau lleol. Fodd bynnag, nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch asesiadau effaith yn cael eu defnyddio'n gyson. Nid yw'r cyngor a roddir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wastad yn cael ei werthfawrogi nac yn arwain at weithredu. Ystyrir bod y diffyg cyllid pwrpasol yn cyfyngu potensial BGCau i gael effaith gadarnhaol a pharhaus ar gymunedau Cymru.

## Ni chreffir yn gyson ar BGCau ac nid ydynt yn cael eu dwyn i gyfrif yn gyson ychwaith

10 Nid yw BGCau yn cymryd y cyfle i ddweud wrth bobl beth maent yn ei wneud a datblygu barn gyffredin am yr hyn y mae angen iddo wella. Er bod rhai BGCau yn darparu lle cefnogol ar gyfer myfyrio a hunanddadansoddi, nid ydynt eto'n gwella atebolrwydd democrataidd nac yn gwella tryloywder. Mae trefniadau ar gyfer cynnwys y cyhoedd a chraffu yn rhy anghyson ac amrywiol i sicrhau bod y craffu ar BGCau yn cwrdd yn llawn â disgwyliadau canllawiau Llywodraeth Cymru. Er gwaethaf peth gwaith cadarnhaol ac effeithiol i wreiddio craffu a'i wneud yn wirioneddol effeithiol, mae gofyn gwneud rhagor o waith i sicrhau lefel gyson o berfformiad ac effaith.

## Er bod cyrff cyhoeddus yn gwerthfawrogi BGCau, nid oes cytundeb ynglŷn â sut y dylai eu rôl weithredu yn awr neu yn y dyfodol

11 Nid oes un model na model cywir o ran sut y dylid trefnu BGCau a sut y dylent weithio. Bydd pob un yn adlewyrchu cyd-destun ei ardal, ffocws aelodau'r Bwrdd a'u blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Serch hynny, mae cyrff cyhoeddus sy'n gweithio ar draws rhanbarthau'n ei chael yn her cyfranogi mewn Byrddau niferus ac mae gorgyffyrddiad o hyd rhwng y BGCau a gwaith ac aelodaeth partneriaethau eraill, yn enwedig y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd ar gyfer lleihau dyblygu'n cael eu cymryd. Mae rhai partneriaid yn pryderu y bydd llai o BGCau, a'r rheiny'n fwy o faint, yn cyfyngu'r ffocws ar gymunedau ac yn achosi i atebolrwydd a'r broses benderfynu fod yn rhy bell oddi wrth ddinasyddion.

12 Yn gymharol, mae gan BGCau fwy yn gyffredin â Phartneriaethau Cynllunio Cymunedol yn yr Alban ond nid ydynt yn cyflawni prosiectau ac yn cydgysylltu rhaglenni cyllido fel eu cyrff cyfatebol yn yr Alban. Cyfrifoldeb pob cyngor yn Lloegr yw penderfynu ynghylch gwaith fel rhan o bartneriaethau strategol. Mae cynghorau Lloegr yn canolbwyntio ar ddefnyddio grym cynllunio defnydd tir, y Grym Cymhwysedd Cyffredinol a'r gallu i negodi sut y bydd incwm a grëwyd o lacio ardollau busnes yn cael ei ailddefnyddio i ysgogi twf sydd o gymorth i fynd i'r afael â phroblemau. Yn Lloegr a'r Alban mae mwy o ffocws ar bartneriaethau'n 'gwneud'.

# Argymhellion

13 Mae ein hargymhellion wedi'u bwriadu i helpu i roi cymorth i aelodau'r BGCau a Llywodraeth Cymru i wella gweithrediad, effeithiolrwydd ac effaith BGCau.

Arddangosyn 2: argymhellion

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A1** | Yn Rhan 1 o'r adroddiad rydym yn nodi bod deall effaith dewisiadau a phenderfyniadau yn golygu ei bod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid yn llawn a chwblhau Asesiadau Effaith. Fodd bynnag, canfuom fod ymarfer presennol yn annigonol i roi sicrwydd bod anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried yn llawn wrth adolygu dewisiadau ac nad yw llai dinasyddion yn dylanwadu'n ddigonol ar benderfyniadau. **Rydym yn argymell bod BGCau:**<br>• **yn cynnal asesiadau ffurfiol i ganfod yr effaith bosibl ar bobl â nodweddion gwarchodedig a'r Gymraeg ac yn adolygu camau gweithredu y cytunwyd arnynt i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol;**<br>• **yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy wneud cyfarfodydd, agendâu, papurau a chofnodion BGCau yn hygyrch ac ar gael i'r cyhoedd;**<br>• **yn cryfhau trefniadau cynnwys trwy weithio'n unol â'r canllawiau yn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru; ac**<br>• **yn adrodd yn ôl ar ganlyniad gweithgarwch cynnwys gan nodi ble y gwneir newidiadau o ganlyniad i fewnbwn dinasyddion a rhanddeiliaid.** |

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A2** | Yn Rhan 2 o'r adroddiad rydym yn adolygu trefniadau craffu BGCau ac yn dod i'r casgliad bod diffygion a gwendidau mewn perfformiad ac arfer presennol. **I wella trefniadau craffu, rydym yn argymell**:<br>• **bod BGCau a chyrff cyhoeddus yn defnyddio canfyddiadau'r Papur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud craffu'n 'Addas ar gyfer y Dyfodol' gan Archwilydd Cyhoeddus Cymru i adolygu eu perfformiad presennol a nodi ble y mae angen iddynt gryfhau trefniadau a gweithgarwch trosolwg; a**<br>• **bod BGCau yn sicrhau bod pwyllgorau craffu'n ymgysylltu'n ddigonol ag ystod ehangach o randdeiliaid perthnasol sy'n gallu helpu i ddwyn BGCau i gyfrif.** |
| **A3** | Yn Rhan 3 o'r adroddiad rydym yn crynhoi'r anhawster o ran datblygu BGCau, eu rhoi ar waith a darparu adnoddau ar eu cyfer a heriau rheoli partneriaethau lluosog sy'n aml yn gallu gorgyffwrdd â'i gilydd a dyblygu ei gilydd. **I helpu i adeiladu capasiti, cysondeb a darparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymell:**<br>• **bod BGCau yn cymryd y cyfle i gyflawni rhwymedigaethau mewn cynlluniau a strategaethau eraill trwy'r Cynllun Llesiant Lleol;**<br>• **bod Llywodraeth Cymru yn galluogi BGCau i ddatblygu modelau gweithio hyblyg gan gynnwys:**<br>– cyfuno, lleihau ac integreiddio eu gwaith gyda fforymau eraill megis Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol; a<br>– rhoi hyblygrwydd i BGCau gael, rheoli a gwario arian grant ar yr amod bod BGCau yn sicrhau bod ganddynt drefniadau diogelu a systemau priodol ar waith i reoli cyllid; rheolaethau effeithiol ar gyllidebau a rhaglenni grantiau; a systemau adrodd wrth y cyhoedd, trosolwg a chraffu i reoli gwariant. |
| **A4** | **Er mwyn helpu i feithrin capasiti, cysondeb a'r broses o ddarparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn eu hadolygiad o bartneriaethau strategol yn ystyried, ac yn archwilio, canfyddiadau'r adolygiad hwn.** |

Rhan 1

# Nid yw cyrff cyhoeddus wastad wedi cymryd y cyfle i fynd ati'n effeithiol i drefnu gwaith BGCau, nac ychwaith i ddarparu adnoddau ar eu cyfer



1.1 Mae Cydamcanu - Cydymdrechu – Rôl ar y Cyd: Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn egluro'r Ddeddf a gwaith BGCau, gan nodi ffiniau cynghorau fel y sail egwyddorol ar gyfer cydweithio. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi sut y gall BGCau uno, sut y dylent gydweithio i ehangu'r cwmpas ac mae'n eu hannog i weithredu'n fwy effeithlon trwy roi'r cyfle iddynt gyflawni dyletswyddau eraill o ran adrodd ar strategaethau a chynllunio trwy waith y BGC. Yn y rhan hon o'r adroddiad rydym yn bwrw golwg ar esblygiad BGCau a sut y maent yn cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn ystyried eu haelodaeth, eu ffocws, yr adnoddau sydd ganddynt, eu gweithrediad ac esblygiad BGCau o'r cyrff a'u rhagflaenodd, sef Byrddau Gwasanaethau Lleol.

## Mae BGCau yn adeiladu ar waith Byrddau Gwasanaethau Lleol ac ar y cyfan mae ganddynt yr aelodaeth gywir, ond mae presenoldeb mewn cyfarfodydd yn amrywio ac nid yw rhai rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cynnwys bob amser

1.2 Fe wnaeth dogfen Llywodraeth Cymru Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar draws Ffiniau a gyhoeddwyd yn 2006, greu Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLlau) yn ardal pob cyngor. Fel BGCau, roedd BGLlau wedi'u bwriadu i 'ddwyn ynghyd y cyfranwyr allweddol at ddarparu gwasanaethau lleol, yn rhai datganoledig a heb eu datganoli'[3] i wella cydweithredu o ran cynllunio gwasanaethau a gweithredu ar y cyd lle canfyddir yr angen, a lle mae canlyniadau da'n dibynnu ar weithredu cydgysylltiedig. Y bwriad oedd y byddai'r BGLlau yn fecanwaith trosfwaol ar gyfer cydgysylltu, gan ddwyn ynghyd y prif ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus – cynghorau, byrddau iechyd leol, yr heddlu, y gwasanaethau tân ac achub a Llywodraeth Cymru ei hun.

1.3 Er bod gwaith a ffocws BGLlau wedi esblygu'n naturiol yn ystod eu hoes, a hwythau wedi'u teilwra'n rhannol gan y disgwyliadau a'r gofynion mewn canllawiau diwygiedig[4], y rhain oedd rhagflaenwyr allweddol BGCau. O'n hadolygiad canfuom fod nifer o BGCau wedi esblygu o'r BGLlau, gan adeiladu ar sylfeini'r partneriaethau blaenorol (er enghraifft, Ceredigion[5] and Merthyr Tudful[6]). Mewn nifer o achosion mae'r un unigolion wedi symud o BGLlau i BGCau gan barhau i gyflawni'r un rôl fwy neu lai â'r un cyfrifoldebau.

3 Llywodraeth Cynulliad Cymru, **Creu'r Cysylltiadau – Cyflawni ar draws Ffiniau: Trawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru**, – tudalen 3, Tachwedd 2006.

4 Er enghraifft, **Cydamcanu - Cydymdrechu: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau**, Rhagfyr 2012.

5 http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/CeredigionStrategicPartnerships_Public/13.5.1-EstablishmentOfCeredigionPSB.pdf

6 https://democracy.merthyr.gov.uk/documents/s31707/Committee%20Report.pdf

1.4 Caiff y rhan fwyaf o BGCau eu cadeirio gan gynrychiolwyr y cyngor: tri gan brif weithredwyr cynghorau a deg gan arweinwyr cynghorau. O'r BGCau eraill, caiff dau eu cadeirio gan gynrychiolydd y bwrdd iechyd lleol, dau gan brif weithredwyr parc cenedlaethol lleol ac mae dau'n cylchdroi'r dyletswyddau cadeirio rhwng partneriaid statudol. Yn ychwanegol at yr aelodau statudol y cyrff cyhoeddus a wahoddir fynychaf i gyfarfodydd BGCau yw Llywodraeth Cymru, yr heddlu, gwasanaethau prawf, parciau cenedlaethol a chynrychiolwyr y sector gwirfoddol lleol. Mae Arddangosyn 3 yn crynhoi'r prif fynychwyr ar draws yr 19 BGC ac amlder eu presenoldeb mewn cyfarfodydd.

## Arddangosyn 3: amlder presenoldeb aelodau'r BGC

Ceir amrywiad eang mewn presenoldeb ar draws yr 19 BGC o blith aelodau statudol a gwahoddedigion statudol sy'n amrywio o lai na 50% i 100% ar BGCau unigol.

| Aelodau BGCau | Statws | Arweinwyr yn bresennol | Dirprwyon yn bresennol | Dim presenoldeb |
|---|---|---|---|---|
| Arweinydd y Cyngor | Aelodau statudol | 52% | 33% | 15% |
| Uwch-swyddogion y Cyngor | Aelodau statudol | 64% | 28% | 8% |
| Awdurdod tân ac achub | Aelodau statudol | 54% | 46% | - |
| Bwrdd iechyd | Aelodau statudol | 52% | 45% | 3% |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Aelodau statudol | 61% | 34% | 5% |
| Llywodraeth Cymru | Gwahoddedigion statudol | 47% | 13% | 40% |
| Prif gwnstabl | Gwahoddedigion statudol | 45% | 44% | 11% |
| Comisiynydd heddlu a throseddu | Gwahoddedigion statudol | 30% | 28% | 42% |

| Aelodau BGCau | Statws | Arweinwyr yn bresennol | Dirprwyon yn bresennol | Dim presenoldeb |
|---|---|---|---|---|
| Y gwasanaeth prawf | Gwahoddedigion statudol | 25% | 25% | 50% |
| Y cwmni adsefydlu cymunedol | Gwahoddedigion statudol | 24% | 8% | 68% |
| Parciau cenedlaethol | Gwahoddedigion | 81% | - | 19% |
| Cynrychiolydd y sector gwirfoddol | Gwahoddedigion statudol | 77% | - | 23% |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, adolygiad o gofnodion cyfarfodydd BGC

1.5 Mae Arddangosyn 2 yn amlygu bod yr holl bartneriaid statudol ar draws yr holl BGCau yn aml yn anfon dirprwyon, yn enwedig byrddau iechyd ac awdurdodau tân ac achub, sy'n tueddu i gael eu cynrychioli gan gyfarwyddwyr ardal neu reolwyr ardal yn hytrach na phrif weithredwyr neu brif swyddogion cyllid. Mae'r diffyg parhad mewn presenoldeb ac amlder dirprwyon yn cael eu amlygu'n rheolaidd fel ffactor sy'n lleihau effeithiolrwydd BGCau.

1.6 Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd i'n galwad am dystiolaeth, 'er bod y Ddeddf yn eithaf rhagnodol o ran hynafedd yr unigolion y mae'n ofynnol iddynt eistedd ar y Bwrdd, mae eilyddion neu ddirprwyon yn dal yn weddol gyffredin. Dim ond pum gwaith y flwyddyn y mae'r BGC yn cwrdd ac mae anghysondeb mewn cynrychiolaeth yn golygu ei bod yn anodd creu momentwm o ran gwireddu gweledigaeth gyffredin ac ateb diben cyffredin'. Nododd un arall ei bod yn hanfodol bod gan y BGC 'ffocws ar sicrhau bod yr holl bartneriaid sy'n mynychu yn gweld gwerth eu rôl yn y BGC, mae rhai yn mynychu heb ychwanegu'r gwerth y mae ei angen, heb gefnogi'n weithredol' a dywedodd un arall fod 'y byrddau yn amrywiol ac yn dibynnu'n fawr iawn ar y ddeinameg ymhlith y sefydliadau sy'n mynychu. Oni bai fod uwch aelodau o'r sefydliadau sy'n cyfranogi'n mynychu, maent [y Bwrdd] yn rhedeg allan o stêm yn gyflym iawn'.

1.7 Er bod gan bob BGC gynrychiolaeth o'r sector gwirfoddol, mae aelodau cynghorau gwirfoddol sirol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn nodi bod gwaith BGCau yn teimlo'n bell iawn o realiti gwaith o ddydd i ddydd mudiadau'r trydydd sector. Mae diwylliant BGCau hefyd yn teimlo fel agenda sy'n eiddo i awdurdodau lleol, yn anad dim mewn ardaloedd lle mae nifer y cynrychiolwyr awdurdod lleol yn gorbwyso sefydliadau eraill. Maent yn dod i'r casgliad bod 'y cydbwysedd grym presennol yn adlewyrchu'r sefyllfa ar hyn o bryd, sef system 'â dwy haen' gyda baich clir ar y pedwar partner statudol yn erbyn yr aelodau 'eraill'; gan arwain at gydberchnogaeth wan ar y gwaith[7].

1.8 Mae'r BGCau hefyd yn gwahodd ystod eang o sefydliadau eraill i gyfranogi yn eu gwaith a'i drefnu. Er enghraifft, sefydliadau addysg bellach neu uwch a chymdeithasau tai. Canfuom mai dim ond tri BGC sydd â phresenoldeb rheolaidd o gynghorau tref a chymuned – Castell-nedd Port Talbot, Torfaen a Bro Morgannwg – ac mai dim ond un BGC (Abertawe) sydd â lefel dda o gyfranogiad gan y sector preifat trwy'r Fforwm Busnes Rhanbarthol. Nid oes unrhyw grwpiau ffydd yn rhan o waith y BGCau er bod eu gwerth yn cael ei gydnabod mewn asesiadau llesiant.

## Mae BGCau yn ymgysylltu â dinasyddion, ond nid ydynt yn eu cynnwys yn eu gwaith

1.9 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn glir y dylai BGCau weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, gan gynnwys dinasyddion yn y broses o gyd-gynllunio a chyflawni cynlluniau llesiant. Mae BGCau wedi cyflawni gweithgarwch helaeth i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu a chwblhau eu hamcanion llesiant a'r Cynllun Llesiant Lleol. Er enghraifft, arolygon ar ffurf holiaduron yng Ngheredigion, Caerffili, Sir Benfro, Torfaen, Castell-nedd Port Talbot, Bro Morgannwg a Chasnewydd; a sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithdai mewn 'ardaloedd cymunedol' dynodedig yng Ngwynedd ac Ynys Môn, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Castell-nedd Port Talbot, Sir Fynwy, Abertawe, Sir y Fflint, Conwy a Sir Ddinbych.

7 Sylwadau gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad Cenedlaethol – ymchwiliad mewn perthynas â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Mai 2018.

1.10 Mae enghreifftiau nodedig eraill o ymgysylltu yn cynnwys ailbennu ffocws paneli dinasyddion[8] ar weithgarwch BGCau megis Panel Dinasyddion Blaenau Gwent, Eich Llais Wrecsam, Cynnwys Casnewydd a Phanel Pobl Torfaen. Mae Hwb Ymgynghori Torfaen yn helpu'r cyhoedd i ganfod a chymryd rhan mewn ymgyngoriadau a gynhelir gan bob sefydliad gwasanaethau cyhoeddus yn Nhorfaen. Ac mae cylchlythyr Ein Cwm Taf[9] a bwletin Casnewydd yn Un[10] yn enghreifftiau da o sut y mae byrddau yn rhoi gwybodaeth i bobl am yr hyn sy'n digwydd, gan wahodd sylwadau, a hyrwyddo'r arfer o wirfoddoli.

1.11 Er bod gweithgarwch ymgysylltu wedi cymryd llawer o amser ac wedi bod yn helaeth mae wedi tueddu, serch hynny, i ddilyn dulliau traddodiadol sy'n canolbwyntio ar hysbysu yn hytrach na chynnwys pobl ac, o ganlyniad, nid yw'n bodloni disgwyliadau newydd y Ddeddf. Er enghraifft, nid yw'n glir sut y defnyddiwyd gweithgarwch o'r fath i lunio blaenoriaethau BGCau, yr amcanion llesiant terfynol a'r camau gweithredu y mae eu hangen i gyflawni newid. Yn yr un modd, nid yw rhanddeiliaid yn cael eu gwneud yn ymwybodol o effaith eu cyfraniad a phrin oedd y dystiolaeth a welsom o'r modd y mae BGCau yn sicrhau bod amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli ac yn cymryd rhan mewn weithgarwch ymgysylltu. Er enghraifft, gwelsom mai dim ond BGC Pen-y-bont ar Ogwr oedd yn ymgysylltu'n benodol â phobl â nodweddion gwarchodedig ac yn ceisio eu cynnwys. Mae gweithgarwch ymgysylltu ledled Cymru wedi digwydd yn Gymraeg neu Saesneg yn unig, ac nid mewn ieithoedd eraill na thrwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Rydym yn dod i'r casgliad nad yw BGCau yn gyson yn cynnwys pobl sydd â'r budd mwyaf pan fo cyrff cyhoeddus yn rhoi ffocws cryfach ar wella bywydau dinasyddion.

8 Mae Panel Dinasyddion yn anelu at fod yn gorff cynrychiolaidd, ymgynghorol o drigolion lleol. Fe'i defnyddir yn nodweddiadol gan asiantaethau statudol, yn enwedig awdurdodau lleol a'u partneriaid, i adnabod blaenoriaethau lleol ac i ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr ar faterion penodol.

9 http://www.ourcwmtaf.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=286&mid=613&fileid=403

10 http://www.newport.gov.uk/oneNewport/News/One-Newport-Bulletin.aspx

## Mae’r rhan fwyaf o BGCau wedi mabwysiadu’r Amodau Gorchwyl a nodir yn y Ddeddf

1.12 Mae’r amodau gorchwyl yn diffinio diben a strwythurau’r BGC ac maent yn sail i bartneriaid gytuno i weithio gyda’i gilydd i gyrraedd nod cyffredin. Bydd amodau gorchwyl da’n nodi trefniadau llywodraethu, swyddogaethau ac uchelgeisiau’r BGC a byddant yn amlygu sut y bydd partneriaid a’r cyhoedd yn cael eu cynnwys. Byddant hefyd yn darparu sail wedi’i dogfennu ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol gan y byddent yn diffinio:

a gweledigaeth, amcanion, cwmpas a chanlyniadau (h.y. yr hyn y mae’n rhaid ei gyflawni);

b rhanddeiliaid, rolau a chyfrifoldebau (h.y. pwy fydd yn cymryd rhan ynddo);

c cynlluniau adnoddau, ariannol ac ansawdd (h.y. sut y bydd yn cael ei gyflawni); a

ch strwythur manylion ac amserlen gwaith (h.y. pryd y bydd yn cael ei gyflawni).

1.13 Er bod Llywodraeth Cymru yn rhoi anogaeth ar gyfer hyblygrwydd lleol, gwelsom fod 17 o’r 19 BGC wedi mabwysiadu amodau gorchwyl yn unol â’r Ddeddf, ond heb rhyw lawer o amrywiaeth i ystyried amgylchiadau lleol. Er bod bron iawn yr holl amodau gorchwyl yn dilyn yr un fformat, canfuom nad yw chwech yn nodi sut y bydd is-grwpiau a gweithgorau yn cael eu sefydlu ac yn gweithredu a bod pump yn peidio â nodi sut y bydd pobl a phartneriaid yn cael eu cynnwys yng ngwaith y BGC. Adnoddau, meithrin capasiti a datblygu sgiliau yw’r bylchau mawr yn yr amodau gorchwyl presennol. Mae BGCau Caerdydd, Caerffili a Chasnewydd wedi diweddaru eu hamodau gorchwyl ac mae BGC Abertawe wedi llunio canllawiau da i gefnogi gwaith y BGC. Yn ddefnyddiol, mae’r amodau gorchwyl a ddatblygwyd gan Wynedd ac Ynys Môn yn nodi ac yn egluro sut y caiff anghytundeb a gwrthdaro eu datrys.

## Mae agendâu BGCau yn amrywio'n eang ac nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru ar asesiadau effaith yn ddigon clir i gyfarwyddo gweithgarwch mewn meysydd allweddol

1.14 Yn y pen draw, penderfyniadau a wneir yng nghyfarfodydd BGCau sy'n penderfynu a fydd y BGC yn llwyddo ynteu'n methu, ond yn aml gall fod perygl o ddiffyg ffocws mewn cyfarfodydd ac na fyddant yn ghynhyrchiol os nad oes agenda glir ar eu cyfer. O'n hadolygiad o gofnodion ac agendâu, canfuom fod cwmpas agendâu, ansawdd adroddiadau a'r cofnodion yn amrywiol iawn.  Rhwng mis Ebrill 2016 a mis Gorffennaf 2019, fe wnaethom adnabod o wefannau BGCau a chynghorau bod BGCau wedi cynnal cyfanswm o 208 o gyfarfodydd. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu dod o hyd i wybodaeth gyhoeddus am ddyddiadau cyfarfodydd, agendâu, cofnodion ac adroddiadau ar gyfer 11 BGC am rywfaint neu'r cyfan o'r cyfnod hwn. Yn wir, nid yw dau BGC wedi nodi'n gyhoeddus pryd y maent wedi cyfarfod, ac nid ydynt ychwaith wedi cyhoeddi agendâu, papurau bwrdd a chofnodion cyfarfodydd ers mis Ebrill 2016.

1.15 Er mai dim ond darlun rhannol sydd gennym o berfformiad BGCau, canfuom fod y canlynol yn wir ym mis Mehefin 2019:

- a ar gyfartaledd, roedd gan y BGCau 18 o fynychwyr craidd ym mhob cyfarfod, gyda nifer y cyfranogwyr yn amrywio o 16 i 42 o bobl;
- b hyd cyfartalog cyfarfodydd yw 2.5 awr;
- c mae BGCau wedi cael dros 1,100 o adroddiadau a thros 300 o gyflwyniadau ffurfiol yn ogystal â diweddariadau rheolaidd ar lafar ac eitemau rheolaidd a gyflwynwyd;
- ch mae tua 98% o'r tasgau ar gyfer gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd yn cael eu neilltuo i gynghorau 'sy'n lletya'; ac
- d ar gyfartaledd, mae gan bob BGC bedwar is-grŵp sy'n amrywio o ddim is-grwpiau mewn pedwar BGC i 11 mewn un.

1.16 Yn rhy aml, nid yw adroddiadau a chofnodion wedi'u hysgrifennu'n glir ac maent yn llawn jargon a all ei gwneud hi'n anodd i'r cyhoedd farnu ynglŷn ag ansawdd penderfyniadau a gwaith BGCau. Mae trafodaethau yn aml yn dod i ben gyda'r Bwrdd yn 'nodi' eitemau, neu'n 'diolch' i bartneriaid am gyfraniadau, ac mae agendâu yn rheolaidd yn cynnwys materion er gwybodaeth nid ar gyfer penderfyniad. A hefyd, gan bod y rhain yn tueddu i beidio â bod yn faterion ar gyfer gweithredu nid ydynt yn cael eu monitro ac ni chreffir arnynt yng nghyfarfodydd diweddarach BGCau. Nododd un ymatebwr i'n galwad am dystiolaeth o'u profiad hwy, 'mae'r BGC wedi dod yn 'siop pob dim' lle mae mentrau yn y cwestiwn. Mae agendâu wedi bod yn hir ac mae amser trafod yn gyfyngedig'. Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad nad yw BGCau yn gwneud digon i adrodd yn gyhoeddus ac yn agored ar eu gwaith i sicrhau y gall rhanddeiliaid a dinasyddion ffurfio ban ynglŷn â pherfformiad a'u dwyn i gyfrif. Mae hyn yn gwanhau tryloywder ac atebolrwydd ac mae'n anodd gweld sut mae cyrff cyhoeddus ar y cyd yn rhoi ffocws cryfach ar wella bywydau dinasyddion lleol yn unol â chanllawiau cenedlaethol a budd y cyhoedd.

1.17 Canfuom nad yw canllawiau Llywodraeth Cymru[11] yn nodi'n glir ychwaith a ddylai'r BGCau gynnal asesiadau effaith, gan nodi 'nid yw bwrdd gwasanaethau cyhoeddus o dan ddyletswydd i gynnal asesiadau o effaith ffurfiol. Ond gallent ystyried bod hyn yn ffordd ddefnyddiol o feddwl am faterion y byddai aelodau'r bwrdd yn disgwyl eu hystyried beth bynnag os ydynt i asesu lles eu hardal yn ystyrlon'. O ganlyniad, mae BGCau wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau o fesur a deall effaith bosibl eu penderfyniadau. Er enghraifft, er bod rhai Byrddau wedi cynnal asesiadau effaith ar gyfer y BGC yn benodol, mae eraill yn dibynnu ar asesiadau effaith sefydliadau unigol. Yn aml, fodd bynnag, nid yw'r rhain yn ymwneud yn benodol â blaenoriaethau'r BGC na chamau gweithredu arfaethedig a gallant fynd heb eu gweld gan aelodau eraill o'r Bwrdd.

11 https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/spsf-3-rol-gydweithredol-byrddau-gwasanaethau-cyhoeddus.pdf

1.18 Yn fwy cyffredinol, fe wnaeth ymatebwyr i'n galwad am dystiolaeth dynnu sylw at bryderon gyda chanllawiau a chyngor Llywodraeth Cymru, a hwythau o'r farn eu bod yn rhy fiwrocrataidd, yn rhy gyfarwyddol a heb eu hintegreiddio'n ddigonol â chanllawiau partneriaethau allweddol eraill, yn enwedig Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Er enghraifft, nododd un fod 'y ddeddfwriaeth wedi bod yn rhagnodol iawn, ac wedi achosi oedi cyn dechrau gweithio ar brosiectau. Roedd y trafodaethau cynnar yn canolbwyntio ar ddyddiadau pan oedd yn rhaid gwneud pethau ac, yn wrthnysig, dyddiadau pan na ellid cychwyn ar bethau nes bod cyfnod o amser wedi mynd heibio'. Nododd sylwebydd arall, er mwyn cynorthwyo'r BGCau i ffynnu, fod angen 'llai o ofynion a disgwyliadau a osodir yn genedlaethol; llai o fiwrocratiaeth wedi'i chreu'n ganolog' a dywedodd un arall y dylai BGCau fod â 'mwy o hyblygrwydd i alluogi'r BGC i ganolbwyntio ar fentrau hytrach na chydymffurfio â'r canllawiau'.

## Mae gan BGCau farn gymysg ynglŷn â manteision y cyngor y maent yn ei gael gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

1.19 Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi egluro wrth BGCau y disgwylir i'w gwaith ganolbwyntio ar faterion penodol, lle mae'r BGC yn fwy tebygol o wneud newidiadau trawsffurfiol a all helpu i wella llesiant pobl. Yn wir, mae'r Comisiynydd wedi gofyn i BGCau ystyried canolbwyntio'n fanylach ar nifer fach o faterion ac ystyried ffyrdd gwahanol o fynd i'r afael â materion yn hytrach na pharhau â rhai o'r dulliau gweithredu mwy traddodiadol nad ydynt wedi profi'n llwyddiannus yn y gorffennol.

1.20 Mae'r Comisiynydd hefyd wedi'i gwneud yn glir mai rhan o'i rôl yw 'parhau â'r sgwrs' ac yn 2016-17 fe anfonodd lythyrau o gyngor at BGCau mewn ymateb i'w hasesiadau llesiant, a arweiniodd at ei hadroddiad cenedlaethol **Llesiant yng Nghymru: cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory**. Fe roddodd y Comisiynydd gyngor i BGCau ynghylch eu hamcanion llesiant drafft hefyd yn 2017-18, pan oedd BGCau yn paratoi eu cynlluniau llesiant.

1.21 Canfuom fod BGCau yn ymateb yn wahanol iawn i'r cyngor hwn. Mae rhai BGCau, megis Ceredigion, Cwm Taf a Sir Benfro, yn amlwg wedi adolygu'r Cyngor – er enghraifft, rhaglen 'Celfyddyd yr Hyn sy'n Bosibl'[12] – ac mae partneriaid y BGC wedi ystyried ar y cyd sut y gallant ddefnyddio'r mewnwelediadau hyn i fireinio eu gwaith. Er eu bod yn parchu'r cyngor a'r arweiniad a roddir gan y Comisiynydd a'i Swyddfa, mae cofnodion cyfarfodydd rhai BGCau yn nodi y gallai hyd ac amseroldeb cyngor fod yn well ac yr ystyrir yn aml nad yw'n ymarfer nac o gymorth i gynorthwyo'r BGC i wella.

1.22 Er enghraifft, mae cofnodion cyfarfod BGC Casnewydd ar 21 Tachwedd 2017 yn nodi 'Fe wnaeth aelodau'r sylw bod cyngor y Comisiynydd yn rhy faith ac y gallai fod wedi darparu cyfarwyddyd mwy eglur o ran disgwyliadau a modelau arweiniad ar gyfer y BGC o ran sut y gallai wneud pethau'n wahanol'.[13] Yn yr un modd, yng nghyfarfod BGC Wrecsam ar 13 Medi 2018 nodwyd fod '[y Comisiynydd] yn gofyn i BGCau ystyried y trefniadau llywodraethu rhyngddynt hwy eu hunain a'r BPRhau. Teimlai'r BGC fod y cyngor wedi'i amseru'n wael i ystyried hyn yn fanwl ar hyn o bryd'.[14] Caiff y rhain eu hadleisio gan ymatebion i'n galwad am dystiolaeth, gydag adborth gan aelod o un BGC yn nodi bod 'disgwyliadau delfrydaidd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol' yn llesteirio gwaith y BGC.

## Mae diffyg cyllid sydd wedi'i neilltuo'n cyfyngu ar waith ac effaith BGCau

1.23 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sicrhau bod cymorth gweinyddol ar gael i'r BGC – gan sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd; paratoi'r agenda a chomisiynu papurau ar gyfer cyfarfodydd; gwahodd cyfranogwyr a rheoli presenoldeb; gweithio ar yr adroddiad blynyddol a pharatoi tystiolaeth ar gyfer craffu. Fodd bynnag, cyfrifoldeb pob Bwrdd yw pennu adnoddau priodol a chymesur ar gyfer eu swyddogaethau cyfunol sy'n gyfrifoldeb a ddylai gael ei ysgwyddo gan yr holl aelodau statudol i'r un graddau.

12 Mae 'Celfyddyd yr Hyn sy'n Bosibl' yn un o brif raglenni gwaith y Comisiynydd. Dull partneriaeth ydyw o amlygu gwaith gwych sy'n gwella llesiant mewn cymunedau yng Nghymru.

13 http://www.newport.gov.uk/documents/One-Newport/PSB-Minutes-21-November-2017.pdf

14 https://www.wrexhampsb.org/wp-content/uploads/2016/08/WrexhamPSB-13-09-18-mins.pdf

1.24 Prif ffynhonnell 'incwm' BGCau yw Grant Rhanbarthol Llywodraeth Cymru a roddir ar sail olion traed byrddau iechyd ac y mae'n rhaid ei wario er budd pob BGC o fewn y rhanbarth hwnnw ac na ellir ei wario ar waith prosiect. Canfuom fod gan rai BGCau gyllidebau penodol. Mae gan BGC Cwm Taf gytundeb gyfunol i gefnogi gwaith gweinyddol gyda chyfraniadau gan y cynghorau a'r bwrdd iechyd. Yn yr un modd, mae'r cynghorau a'r bwrdd iechyd sy'n aelodau o BGC Castell-nedd Port Talbot a BGC Abertawe yn cyfrannu £10,000 yr un i dalu am gost cymorth gweinyddol. Mae nifer o BGCau hefyd yn ceisio cysoni eu gwaith â grwpiau partneriaeth eraill er mwyn rhannu cyllid grant.

1.25 Y tu hwnt i'r cyllid hwn, mae cyfraniad y mwyafrif o bartneriaid i'r BGCau yn 'gyfraniad mewn ffordd arall', fel arfer amser swyddogion a'r defnydd o gyfleusterau gyda'r rhan fwyaf o wariant yn cael ei amsugno gan bob partner, yn enwedig y cyngor. Mae hyn yn arbennig o anodd i gynghorau gan ei bod yn ofynnol iddynt wasanaethu'r BGC a chyflawni'r rôl graffu sy'n ehangach na rhoi cymorth ar gyfer cyfarfodydd. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad oes gan bartneriaid y capasiti i ymgymryd â mwy ac mae adnoddau a chapasiti yn dal i fod yn risg allweddol. Yn wir, mae un o'r negeseuon allweddol o'n galwad am dystiolaeth yn ymwneud ag adnoddau, capasiti a'r angen am ffrwd ariannu benodedig ar gyfer BGCau.

Adborth o’r alwad am dystiolaeth ar y prif risgiau sy’n wynebu’r BGC:

‘Er mwyn i’r BGC ddechrau cyflawni ei botensial, mae angen cyllid wedi’i neilltuo ar ei gyfer. Yn hollbwysig, mae angen dyrannu hwn i’r BGC... nid dim ond yr awdurdod lleol neur partneriaid statudol. Mae dyrannu adnoddau a i’r BPRhau ar ffurf y Gronfa Gofal Integredig a’r gronfa trawsnewid wedi cryfhau cydweithio aml-asiantaeth, traws-sector.’

‘Mae’r prif rwystrau’n ymwneud â materion adnoddau a chapasiti.’



‘Darparu mynediad at gymorth ariannol – mae pob partner o dan bwysau ariannol a hyd yn oed os canfyddir cyfleoedd i gydweithio mae costau sefydlu i’w cael o hyd yn ogystal â’r angen am gymorth staff.’

‘Byddai cyllid ac adnoddau wedi’u neilltuo a gwell eglurder o ran y disgwyliadau ar gyfer BGCau o’i gymharu â phrosiectau cydweithio eraill yn gwella effaith.’

‘Mae diffyg adnoddau ariannol uniongyrchol yn atal rhai camau gweithredu rhag cael eu cyflawni – mae’r amser a’r ymdrech sy’n ofynnol i edrych ar gyllidebau cyfunol/a rennir yn anghymesur ag unrhyw lwyddiant. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rhai o’r ffrydiau ariannu yn cael eu cyfeirio at BGCau – y Gronfa Gofal Integredig, cronfeydd trawsnewid ac ati. Byddai hyn yn helpu i gydnabod rôl y BGC ac yn cyflymu’r broses o newid ac ailgyflunio gwasanaethau.’

‘Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae’r awdurdod lleol wedi dyrannu adnoddau sylweddol i sicrhau bod y BGC yn gweithredu’n effeithiol. Mae hyn yn faich sylweddol nad yw’n gynaliadwy yn y tymor hir.’

‘Nid yw’r BGCau yn cael unrhyw gyllid uniongyrchol, ac mae hwn yn ffactor cyfyngol. Mae capasiti a galluoedd pob partner yn amrywio felly mae pob partner yn cyfrannu mewn ffyrdd gwahanol iawn. Yn anochel, y partneriaid hynny sydd â’r ysgwyddau lletaf sy’n ysgwyddo’r llwyth trymaf sy’n broblem ar adeg o gyni pan fo pob sefydliad o dan bwysau ariannol ac yn ei chael yn anodd ymdopi ag adnoddau cyfyngedig.’



‘Mae’r prif rwystrau yn ymwneud ag adnoddau a chapasiti ar draws sefydliadau partner: diffyg cyllideb adnoddau sydd wedi’i neilltuo i bartneriaeth y BGC; llai o gapasiti ar draws uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus yn dilyn 6 mlynedd o gyni; a diffyg cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gyflawni gofynion y DLICD, yn enwedig o’i gymharu â’r hyn a oedd ar gael i gyflawni’r DdGCaLl.’

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Galwad am Dystiolaeth, Mai – Mehefin 2019.

Rhan 2

# Ni chreffir yn gyson ar BGCau ac nid ydynt yn cael eu dwyn i gyfrif yn gyson ychwaith



2.1 Mae'r Ddeddf yn nodi mai cynghorau lleol sy'n gyfrifol am fynd ati'n ffurfiol i oruchwylio a chraffu ar BGCau, ac yn arbennig: darparu lle cefnogol ar gyfer myfyrio a hunanddadansoddi; gwell atebolrwydd democrataidd a thryloywder; ffocws cryfach ar wella bywydau dinasyddion lleol; a thrawsnewid seiliedig ar le trwy ymgysylltu'n fwy manwl â'r cyhoedd. Caiff tair prif rôl pwyllgorau trosolwg a chraffu eu nodi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ac fe'u diffinnir fel a ganlyn:

a adolygu trefniadau llywodraethu'r BGCau;

b gweithredu fel ymgyngoreion statudol ar yr asesiad llesiant a'r Cynllun Llesiant Lleol; ac

c monitro'r cynnydd a wnaed gan BGCau o ran rhoi'r Cynllun Llesiant Lleol ar waith ac ymgysylltu â chylch cynllunio BGCau.

2.2 Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd, rhaid i gynghorau ddynodi pwyllgor craffu i adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC yn ogystal ag adolygu neu graffu ar y penderfyniadau a wnaed, neu gamau gweithredu a gyflawnwyd gan y BGC, a llunio adroddiadau neu argymhellion ar gyfer y Bwrdd ynglŷn â'i swyddogaethau neu ei drefniadau llywodraethu. Cyfrifoldeb pob Cyngor yw penderfynu ar ffurf y trefniadau craffu hyn. Er enghraifft, gellir defnyddio pwerau deddfwriaethol presennol i sefydlu trefniadau ar y cyd, fel 'cyfethol' pobl nad ydynt yn aelodau o'r awdurdod i eistedd ar y pwyllgor, a lle y bo'n briodol penodi cydbwyllgorau ar draws mwy nag un ardal awdurdod lleol. Gall y pwyllgor ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod statudol o'r Bwrdd roi tystiolaeth, ond dim ond mewn perthynas ag arfer swyddogaethau ar y cyd a roddwyd iddynt fel aelod statudol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw unigolyn sydd wedi derbyn gwahoddiad i gymryd rhan yng ngweithgarwch y Bwrdd.

2.3 Gwelsom fod cynghorau yn amrywio'n fawr o ran y ffordd y maent wedi cyflunio eu swyddogaethau craffu ar gyfer y BGC. Mae gan bump ohonynt bwyllgor craffu penodol ar gyfer y BGC, mae pump yn cynnwys trosolwg o fewn cylch gwaith pwyllgor craffu partneriaeth, ac mae eraill wedi sefydlu llinellau adrodd trwy bwyllgorau craffu polisi ac adnoddau. Abertawe sydd â'r pwyllgor craffu mwyaf a wahoddodd 32 o bobl i bob cyfarfod ar gyfartaledd yn 2018 a 2019. Fodd bynnag, nid yw un Cyngor wedi dynodi na chreu pwyllgor craffu, nad yw wedi cwrdd eto. Yn aml, mae gan gynghorau sydd wedi integreiddio gwaith craffu ar y BGC gyda chyfrifoldebau eraill bwyllgorau â chylchoedd gwaith eang iawn ac nid oes gan gynghorwyr ddigon o gapasiti i ystyried popeth y mae angen iddynt ei ystyried. O ganlyniad, gall gwaith y BGC gael blaenoriaeth isel.

2.4 Nid yw amseroedd ac amlder cyfarfodydd yn helpu pwyllgorau craffu i fonitro'r cynnydd gan BGCau o ran rhoi'r Cynllun Llesiant ar waith. Er enghraifft, nid yw'r rhan fwyaf o bwyllgorau craffu yn amserlennu eu cyfarfod fel eu bod yn adlewyrchu cylch cyfarfodydd y BGC. Mae amlder cyfarfodydd pwyllgorau craffu cynghorau'n amrywio'n eang hefyd, sy'n adlewyrchu pa un a yw'r gorchwyl trosolwg wedi'i roi i bwyllgor presennol ynteu i bwyllgor penodol sy'n canolbwyntio ar y BGC yn unig. O ganlyniad, mae rhai pwyllgorau craffu yn cyfarfod yn fisol, ac eraill yn llai aml.

2.5 Canfu ein hadolygiad o bapurau, agendâu ac adroddiadau pwyllgorau craffu cynghorau fod nifer o bwyllgorau yn canolbwyntio ar weinyddu, strwythurau a gweithdrefnau mewnol a dim digon ar ddarparu mewnwelediad neu her i BGCau. Gwelsom dystiolaeth yr ymgynghorir â'r rhan fwyaf o bwyllgorau craffu, ond nid pob un, ynghylch asesiad llesiant a Chynllun Llesiant Lleol y BGCau, ond nid yw bob amser yn glir pa effaith y mae eu gwaith craffu wedi'i chael. Mae rhai pwyllgorau craffu yn syml yn nodi eu bod wedi cael y Cynllun Llesiant Lleol gyda'r cofnodion yn nodi dim sylw na her, neu ychydig iawn o hynny.

2.6 Gyda golwg ar fonitro'r cynnydd gan BGCau o ran rhoi'r Cynllun Llesiant ar waith ac ymgysylltiad â chylch cynllunio'r BGC, canfuom wahaniaethau mawr ym mherfformiad pwyllgorau craffu. Ceir tystiolaeth dda bod rhai pwyllgorau craffu yn herio gwaith BGCau yn effeithiol. Er enghraifft, gwaith Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad Cyngor Caerdydd wrth ystyried Adroddiad Llesiant y BGC 2017-18[15]. Yn yr un modd, mae Caerffili yn darparu adroddiadau ar berfformiad y BGC i Aelodau cyn cyfarfodydd craffu er mwyn helpu'r aelodau i bennu eu trywyddion ymholi a sicrhau bod y swyddogion cywir o bartneriaid y BGC yn mynychu cyfarfodydd i ateb y cwestiynau hyn. Hefyd, mae trafodaethau mewn rhag-gyfarfodydd yn galluogi swyddogion i gyflwyno cwestiynau o dan themâu er mwyn tynhau ffocws gwaith craffu.

15 http://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s25545/Minutes%20Public%20Pack%2003102018%20Policy%20Review%20and%20Performance%20Scrutiny%20Committee.pdf

2.7 Fodd bynnag, nid yw'r enghreifftiau cadarnhaol hyn yn gyffredin i bawb, a chanfuom ddiffygion sylweddol yn y ffordd y mae rhai pwyllgorau craffu yn adolygu ac yn craffu ar y penderfyniadau a wnaed a'r camau gweithredu a gyflawnwyd gan BGCau. Er enghraifft, mae adroddiadau diweddariadau am waith y BGC yn syml yn cael eu nodi gan rai pwyllgorau craffu, tra nad yw pwyllgorau eraill yn tracio nifer yr argymhellion y maent yn eu gwneud i'r BGC weithredu arnynt, trafodaethau am y rheiny, pa un a ydynt wedi'u cyflawni ai peidio, na'u heffaith. Gall papurau a chofnodion pwyllgorau craffu fod yn llawn jargon a thalfyriadau hefyd sy'n gallu ei gwneud hi'n anodd i gynghorwyr archwilio perfformiad, pwynt a nodwyd gan Bwyllgor Cydgysylltu Trosolwg a Chraffu Ceredigion[16]. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r cynghorau ddangos sut y maent yn cyflawni'r disgwyliadau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

2.8 O'r cynghorau a oedd yn cyhoeddi adroddiadau craffu blynyddol, ychydig o sylwebaeth a welsom ar eu cyfrifoldebau i graffu ar drefniadau llywodraethu BGCau a pha un a yw'r systemau presennol yn effeithiol neu a oes angen iddynt newid. Yn gyffredinol, nid yw Amodau Gorchwyl BGCau yn cael eu hadolygu gan bwyllgorau craffu. Mae hyn yn bwysig oherwydd gall gwaith llywodraethu'r BGCau esblygu dros amser a gall blaenoriaethau newid.

2.9 Er bod rhai pwyllgorau craffu ar BGCau yn rhoi anogaeth ar gyfer presenoldeb ehangach mewn cyfarfodydd gallai hyn fod yn fwy cynhwysol er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid a dinasyddion yn cael y cyfle i ddwyn eu BGC i gyfrif. Caiff pob pwyllgor craffu ar BGC ei gadeirio gan gynghorydd, mae aelodaeth pwyllgorau yn cynnwys cynghorwyr lleol yn bennaf ac nid oes llawer o aelodau cyfetholedig o blith partneriaid BGCau. O ganlyniad, mae gwaith y pwyllgorau yn diweddu â ffocws trwm ar y cyngor. Nid yw llawer o'r BGCau yn agored i'r cyhoedd, a chanfuom mai dim ond un BGC – Abertawe – sy'n rhoi anogaeth i gynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â hwy yng nghyfarfodydd y BGC trwy ei 'amser holi ac ateb' cyhoeddus. Hefyd, roedd Caerdydd ac Abertawe yn trafod cwestiynau a gyflwynwyd gan y cyhoedd. Mae Cwm Taf a Chaerdydd yn hysbysebu cyfarfodydd y BGC a'r pwyllgor craffu yn y wasg leol ac ar y cyfryngau cymdeithasol ac mae gan nifer o BGCau eraill wefannau pwrpasol ar gyfer y cyhoedd gydag ystod dda o wybodaeth ddefnyddiol a hygyrch, a'r goreuon o blith y rhain yn ein tyb ni yw Cwm Taf a Blaenau Gwent. Mae gwefannau â deunyddiau o ansawdd da'n ei gwneud yn hawdd i'r cyhoedd fod â gwybodaeth well am waith y BGC a chael eu cynnwys yn well ynddo. Er gwaethaf yr enghreifftiau cadarnhaol hyn, mae mwy i BGCau a chyrff cyhoeddus ei wneud i sicrhau bod trosolwg effeithiol ar waith y Byrddau.

16 http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/CeredigionStrategicPartnerships_Public/10.8%20Scrutiny%20Feedback%2030.11.2017.pdf

Rhan 3

# Er bod cyrff cyhoeddus yn gwerthfawrogi BGCau, nid oes cytundeb ynglŷn â sut y dylai eu rôl esblygu



3.1 Nid oes un model na model cywir ar gyfer y ffordd y dylai BGCau gael eu trefnu ac y dylent weithio. Swm ei aelodau yw pob BGC a bydd yn adlewyrchu'r cyd-destun lleol, anghenion ei ardaloedd a'r blaenoriaethau gweithredu y cytunwyd arnynt. Ers sefydlu  Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2016, mae cryn dipyn o ffocws eu gwaith cynnar wedi bod ar gwblhau'r asesiad llesiant, mabwysiadu'r Cynllun Llesiant Lleol a sefydlu trefniadau llywodraethu a gweithredu rhwng partneriaid. Mae'r rhan fwyaf o BGCau bellach wedi gyrraedd adeg dyngedfennol, pan fo'r trefniadau hyn wedi hen ymsefydlu a hwythau'n troi eu sylw at gyflawni'r deilliannau y maent wedi'u nodi. Mae'n amserol, felly, bod BGCau yn oedi i ystyried eu rôl a sut y gallant sicrhau bod eu gwaith yn cynnwys digon o ffocws ar gyflawni amcanion y Ddeddf.

## Mae partneriaid yn cefnogi parhad BGCau, ond mae ganddynt farn gymysg ynglŷn â beth ddylai eu rôl fod yn y dyfodol

3.2 Dywedodd bron pob un o'r partneriaid a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth mai  BGCau yw'r cyfrwng cywir i wireddu uchelgeisiau'r Ddeddf, ond roeddent hefyd yn cydnabod mai dim ond rhan o'r ateb ydynt. Er bod y rhan fwyaf o bartneriaid yn nodi mai dim ond os caniateir amser a lle iddynt ddatblygu y bydd BGCau yn cael effaith, fe wnaeth llawer o'r rhai a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth amlygu bod angen i strwythurau newid hefyd i'w cynorthwyo i ffynnu. Roedd cynigion yn cynnwys mwy o hyblygrwydd i alluogi BGCau i weithredu heb ganllawiau rhy ragnodol, archwilio trefniadau gweithio rhanbarthol a mwy o eglurder ynghylch rolau a chysylltiadau rhwng BGCau a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

'Ni fyddwn i am weld newid llwyr yn cael ei gyflwyno eto. Bu gennym Bartneriaethau Cynllunio Cymunedol ac Arweinyddiaeth a Chynllun Cymunedol; wedyn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Cynllun Integredig Sengl, ac yn awr mae gennym Fwrdd Gwasanaethau Lleol a Chynllun Llesiant. Ni allwn barhau i wneud mân newidiadau arwynebol, newid enw partneriaethau, a disgwyl gweld newid er gwell. Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o bobl wedi cael llond bol ar y cylch 5 mlynedd o newid partneriaeth, asesiadau newydd, cynlluniau newydd ac yna 'newid llwyr' cyn bod unrhyw beth wedi cael cyfle i wreiddio a darparu trawsnewid a gwelliant go iawn. Yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae angen i ni gynllunio ar gyfer y tymor hir – i wneud hynny, mae arnom angen ymrwymiad hirdymor i BGCau, hyd yn oed os yw elfen o'r gwaith yn newid i fod ar sylfaen ranbarthol.' – Ymateb i'n galwad am dystiolaeth.

3.3 Mae aelodau BGCau yn aml yn mynychu partneriaethau niferus ac fe wnaeth ymatebwyr i'n Galwad am Dystiolaeth nodi anawsterau o ran cysoni'r holl flaenoriaethau, a bod gwaith eu sefydliad yn aml yn bell i ffwrdd a heb fod yn ganolog i gyflawni'r amcanion llesiant na'r Cynllun Llesiant Lleol. Gall hyn fod yn arbennig o anodd i awdurdodau tân ac achub sy'n cwmpasu rhwng un a naw BGC; a'r heddlu sy'n gweithredu ar draws pedwar a chwe BGC. Er enghraifft, fe wnaeth un ymatebydd i'n galwad am dystiolaeth nodi bod 'gan BGCau Abertawe a CNPT gynlluniau llesiant tebyg iawn ac eto bod y rhain yn cael eu datblygu ochr yn ochr yn hytrach nag mewn ffordd gydgysylltiedig a chydweithredol sy'n anwybyddu ffiniau awdurdodau lleol. Mae hon yn broblem benodol i bartneriaid sy'n cwmpasu ardaloedd mwy nag un BGC – mae'n dyblygu gwaith (presenoldeb mewn cyfarfodydd niferus i drafod yr un materion yn ardaloedd gwahanol ALlau), mae'n golygu colli cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio'. O ganlyniad, mae cyrff sy'n gweithio ar draws rhanbarth yn ei chael yn anodd darparu adnoddau ar gyfer pob un o gyfarfodydd y BGC, pob is-grŵp a phob cyfarfod craffu gan y cyngor.

3.4 Yn yr un modd mae aelodau BGCau yn ei chael yn her ymateb i weithgarwch partneriaethau dan wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth a chysoni'r gweithgarwch hwnnw. Yn ogystal â gorfod creu BGCau, mae hefyd yn ofynnol iddynt ffurfio byrddau partneriaeth rhanbarthol dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a threfniadau darparu rhanbarthol dan ddeddfwriaeth ddiweddar ar Drais yn Erbyn Menywod. Mae lleihau cymhlethdod trefniadau llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus wedi bod yn un o nodau Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a phartneriaid eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ers tro byd, a hwythau'n nodi bod y diffyg aliniad rhwng partneriaethau sy'n parhau i weithredu ar ffiniau daearyddol gwahanol yn gallu gwanhau effaith, rhoi pwysau ar gapasiti a chynyddu cymhlethdod. Heb os nac oni bai, gall partneriaethau helpu i ysgogi trawsnewid, ond nid yw'r model rhagnodol o'r brig i lawr a ffafriwyd hyd yma, ynghyd â gwahanol bwysleisiau mewn gwahanol ddeddfwriaeth a chanllawiau, wastad wedi helpu Cyrff Cyhoeddus i gyflawni ar lawr gwlad.

3.5 Nid yw hyn yn unigryw i BGCau ac mae'n adleisio'r canfyddiadau yn adolygiad diweddar yr Archwilydd Cyffredinol o'r Gronfa Gofal Integredig a gwaith byrddau partneriaeth rhanbarthol[17]. Er enghraifft, mae byrddau partneriaeth rhanbarthol yn gweithredu ar ffiniau byrddau iechyd, tra bo eraill fel y mwyafrif o BGCau yn gweithredu ar sail ôl troed awdurdod lleol. Fe wnaeth nifer o ymatebwyr amlygu hefyd, yn wahanol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol, nad oes adnoddau'n cael eu dyrannu i BGCau i'w gwario'n uniongyrchol. Mae hyn yn achosi i rai partneriaid mewn BGCau ddewis blaenoriaethu gwaith byrddau partneriaethau rhanbarthol uwchlaw BGCau am bod y cyntaf o'r rhain yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â ble i fuddsoddi a gwario arian a'r ail yn peidio â gwneud hynny.

3.6 Fodd bynnag, o gofio'r gwendidau a nodwyd yn yr adrannau cynharach o'r adroddiad hwn ar annigonolrwydd trefniadau atebolrwydd a throsolwg, y diffyg adroddiadau cyhoeddus a dyblygu gweithgarwch BGCau â phartneriaethau eraill, mae risgiau'n gysylltiedig â dyrannu adnoddau i BGCau eu rheoli. Er mwyn i BGCau ddechrau rheoli a gwario arian bydd yn ofynnol gwneud newidiadau a gwelliannau i'r modd y mae BGCau yn gweithio; sut y maent yn adrodd yn gyhoeddus; sut y creffir arnynt ac y cânt eu dwyn i gyfrif; a disgwyliadau eglur o ran sut y dylent reoli cyllidebau a gwariant BGCau.

3.7 Nid yw'n syndod bod llawer o'r rhai yr ydym ni wedi siarad gyda hwy ac a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth wedi amlygu'r amgylchedd presennol yn llawn partneriaethau amlweddog fel rhwystr posibl i welliant am bod adnoddau a chapasiti'n cael eu gorestyn. Yn aml iawn, yr un unigolion yw'r rhai y disgwylir iddynt gyfrannu at BGCau a byrddau partneriaeth rhanbarthol a'u mynychu, gan roi pwysau sylweddol ar eu hamser a'u hadnoddau. Er enghraifft, nododd un ymatebydd i'n galwad am dystiolaeth fod 'y dirwedd partneriaethau bellach yn gymhleth braidd ....... mae'r BGC wedi'i chael yn her dod o hyd i faes lle gall ychwanegu gwerth a pheidio â dyblygu meysydd eraill'. Fe wnaeth ymatebydd arall amlygu bod 'y capasiti i wasanaethau trefniadau partneriaeth BGC a BPRh yn broblem. Byddai trefniant partneriaeth sengl yn helpu i leihau dyblygu, sicrhau cymorth digonol gan swyddogion a darparu eglurder o ran llywodraethu ac atebolrwydd.'

17 http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/y-gronfa-gofal-integredig-adroddiad-cym.pdf

3.8 Yn olaf, amlygodd un ymatebydd fod ‘y berthynas rhwng BGCau, BPRhau a chyrff eraill (Y Fargen Ddinesig, BCAau) yn ddryslyd iawn ac yn creu tirwedd anniben. Mae’n anodd i weithwyr proffesiynol ei deall – heb sôn am y cyhoedd yr ydym i fod i’w gwasanaethu. Mae cylchoedd sydd mewn cystadleuaeth â’i gilydd – mae’r rhan fwyaf o sefydliadau’r sector cyhoeddus yn cael eu cyllido’n flynyddol; mae tymhorau gwleidyddol yn para 4/5 mlynedd ac eto mae BGCau yn ceisio datblygu datrysiadau ar gyfer y genhedlaeth nesaf – mae’r ffactorau hyn yn milwrio yn erbyn ei gilydd.’

3.9 Serch hynny, cymysg yw’r farn pan ystyrir a ddylai BGCau weithredu ar olion traed lleol ynteu rhanbarthol a pha un a ddylent uno â phartneriaethau eraill. Er bod tensiynau’n gynhenid yn y strwythurau presennol, mae heriau’n gysylltiedig â cheisio eu newid hefyd. Er bod partneriaethau mwy’n cynnig darbodion maint, gallant hefyd ddod yn bell i ffwrdd gan symud cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau a’r drefn flaenoriaethu yn bellach oddi wrth gymunedau. Mae Llywodraeth Cymru yn glir hefyd nad yw pob strwythur partneriaeth yn gwneud yr un gwaith. Mae a wnelo rhai â rheoli achosion neu gyflawni strategol ar draws gwasanaethau ar draws gwasanaethau tra bo eraill yn canolbwyntio ar ddatblygu safbwynt strategol cyffredin ac nid yw wastad yn bosibl, nac yn ddymunol, dod â’r rhain ynghyd.

3.10 Yn ogystal â BGCau, mae Llywodraeth Cymru[18] wedi adnabod 23 o brif grwpiadau partneriaeth eraill, sydd wedi’u halinio’n fras â’r themâu canlynol:

a Yr economi a sgiliau – 3

b Iechyd a gofal cymdeithasol – 4

c Cyfiawnder troseddol a chyfiawnder cymdeithasol – 8

ch Plant a phobl ifanc – 3

d Tai – 4

dd Arall – 1

18 Papur 3 (Atodiad A), Gweithgor ar Lywodraeth Leol, Cyfarfod 25 Ionawr 2019.

3.11 Er bod y rhan fwyaf o'r rhain yn deillio o ofynion cenedlaethol, neu'n cael eu hysgogi ganddynt, mae'r cyfrifoldeb am benderfynu sut y cânt eu trefnu, eu rheoli a sut y maent yn gweithio'n cael ei adael i gyrff cyhoeddus i raddau helaeth, gan gydnabod nad oes un ffordd na ffordd gywir i bartneriaethau eu trefnu eu hunain. Ac er bod rhai byrddau wedi sicrhau bod cyfrifoldebau gwahanol fyrddau rhanbarthol a lleol wedi'u diffinio'n glir ac yn ceisio sicrhau cyn lleied â phosibl o ddyblygu, nid yw hyn yn batrwm cyffredin. Hyd yn oed lle ceir cyfleoedd i liflinio gwaith y BGC a chyflawni rhwymedigaethau o ran cynlluniau a strategaethau eraill trwy'r Cynllun Llesiant Lleol, canfuom nad yw BGCau yn eu cymryd o anghenraid.

3.12 Er enghraifft, er bod y rhan fwyaf o gynghorau'n cyflawni eu swyddogaethau cynllunio cymunedol a'u blaenoriaethau ar gyfer tlodi plant trwy eu BGCau, a bod eraill wedi cymryd y cyfle i integreiddio'u partneriaethau diogelwch cymunedol yn un o is-grwpiau'r BGC (Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe, er enghraifft), mae'r cynnydd mewn meysydd eraill wedi bod yn gyfyngedig. Mae strategaethau sy'n ymwneud â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi cael eu rhanbartholi gan fwyaf ac nid ydynt yn cael eu cyflawni trwy'r Cynllun Llesiant Lleol.

3.13 Heb os nac oni bai, mae'r rhai yr ydym ni wedi siarad gyda hwy ac a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth yn gwerthfawrogi gwaith BGCau, ond ceir safbwyntiau gwahanol iawn ynglŷn â sut y dylent esblygu. Fel a nodir uchod, mae rhai'n ffafrio llai o Fyrddau a'r rheiny'n gweithredu ar draws ardaloedd rhanbarthol ehangach tra bo eraill yn gwerthfawrogi trefn lle mae BGCau yn adlewyrchu olion traed awdurdodau lleol ac wedi'u cysylltu'n agosach â chymunedau. Fe hoffai eraill weld BGCau a byrddau partneriaeth rhanbarthol yn cael eu huno i sicrhau llai o ddyblygu, yn anad dim o ran presenoldeb, ond hefyd er mwyn cydgysylltu gwaith ar flaenoriaethau tebyg mewn modd gwell. Mae'n amlwg nad oes un model ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a bod angen i bob partneriaeth adlewyrchu'r amgylchiadau, y blaenoriaethau a'r cyd-destun lleol. A'r BGCau eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pryd, ble a sut y maent yn dymuno cydweithio, ac mae'r Ddeddf wedi'i bwriadu i sicrhau bod ganddynt yr hyblygrwydd i wneud hynny.

3.14 Fodd bynnag, o ystyried y galwadau ar gyrff cyhoeddus i gynnal cymaint o fforymau partneriaeth, mae achos amlwg dros resymoli'r trefniadau presennol i ryddhau capasiti a sicrhau llai o ddyblygu. A dylai'r adolygiad cyfredol a gomisiynwyd gan y 'Gweithgor ar Lywodraeth Leol' i fapio partneriaethau strategol[19] a gwneud argymhellion ar gyfer rhesymoli fynd i'r afael â hyn. I gynorthwyo'r broses, yng ngweddill yr adran hon rydym yn ystyried sut y mae partneriaethau tebyg yn gweithredu yn yr Alban a Lloegr ac yn amlygu gwahaniaethau amlwg o'i gymharu â Chymru.

## Mae BGCau yn debyg ar y cyfan i Bartneriaethau Cynllunio Cymunedol yn yr Alban, ond mae partneriaid yn yr Alban yn cyflawni prosiectau ac yn cydgysylltu rhaglenni cyllido hefyd

3.15 Mae'r dull yng Nghymru'n debyg i'r system Cynllunio Cymunedol[20] yn yr Alban. Cynllunio cymunedol yw'r broses a ddefnyddir gan gynghorau a chyrff cyhoeddus eraill i gydweithio, gyda chymunedau lleol, busnesau a grwpiau gwirfoddol, i gynllunio a darparu gwasanaethau gwell a gwella bywydau pobl sy'n byw yn yr Alban. Deddf Llywodraeth Leol yn yr Alban 2003 sy'n darparu'r sail statudol ar gyfer cynllunio cymunedol. Arweinir gwaith cynllunio cymunedol gan Bartneriaethau Cynllunio Cymunedol (CPP). Mae 32 CPP, sy'n gwasanaethu ardal pob cyngor, ac sy'n cnnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

a **y cyngor:** Mae dyletswydd arno i 'gychwyn, hwyluso a chynnal' cynllunio cymunedol. Mae felly'n gyfrifol am gymryd y camau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod cynllunio cymunedol yn digwydd.

b **partneriaid statudol:** byrddau'r GIG, Scottish Enterprise, Highlands and Islands Enterprise, Police Scotland, Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban a phartneriaethau trafnidiaeth rhanbarthol.

c **partneriaid eraill:** Mae'r rhain yn cynnwys cyrff cyhoeddus eraill, sefydliadau addysg bellach ac uwch, grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a sefydliadau busnes.

19 https://www.wlga.wales/review-of-strategic-partnerships-june-2019

20 Mae'r model Cynllunio Cymunedol wedi bod yn ei le am nifer o flynyddoedd ac fe'i diweddarwyd yn fwyaf diweddar â Deddf Grymuso Cymunedol (Yr Alban) 2015.

3.16 Yn wahanol i BGCau, mae Partneriaethau Cynllunio Cymunedol yn canolbwyntio ar gyflawni prosiectau yn enwedig ar lefel gymunedol. Gall y gwaith hwn gynnwys rheoli a chynorthwyo gyda phrosesau trosglwyddo asedau i grwpiau cymunedol, gweithio gyda chymunedau i feithrin capasiti ac adnabod datrysiadau a hefyd buddsoddi mewn seilwaith a phrosiectau. Er enghraifft, y dull o gynnwys cymunedau yn y gwaith o adnabod a chynllunio ymatebion yn Glasgow[21]. Mae hefyd yn ofynnol i Bartneriaethau Cynllunio Cymunedol ystyried yn benodol sut y gallant helpu i gyfrannu at leihau tlodi a rhaid iddynt hefyd asesu effaith eu dewisiadau polisi ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Yn bwysig, rhaid i Bartneriaethau Cynllunio Cymunedol nodi pa arian cyhoeddus sy'n cael ei wario'n lleol a mynd ati i geisio cyfleoedd i leihau dyblygu, cynnig ar y cyd am gyllid allanol a chyfuno adnoddau.

3.17 Mae Partneriaethau Cynllunio Cymunedol hefyd wedi gweithredu fel y corff cydgysylltu ar gyfer rhaglenni cyllido cenedlaethol; er enghraifft Cronfa Newid y Blynyddoedd Cynnar a sefydlwyd yn 2011 fel cronfa bartneriaeth rhwng Llywodraeth yr Alban, llywodraeth leol a'r GIG gyda chyfanswm buddsoddiad o £274.25 miliwn. Partneriaethau Cynllunio Cymunedol sy'n darparu trosolwg ar gyfer y rhaglen hon ac yn ei chydgysylltu[22]. O ganlyniad, mae cynlluniau Partneriaethau Cynllunio Cymunedol, sydd â graddfa amser 10 mlynedd, yn canolbwyntio ar gyflawni gweithredol yn ogystal â phennu'r cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer ardal. Felly ceir rhai gwahaniaethau pwysig rhwng Partneriaethau Cynllunio Cymunedol a BGCau, sef bod y cyntaf o'r rhain yn cydweithio'n agosach gyda'r sector busnes, bod ganddynt drosolwg ar gyllid a'u bod yn rhoi cymorth i gyflawni prosiectau cymunedol. Mae hyn yn wahanol iawn i BGCau.

21 https://www.glasgowcpp.org.uk/index.aspx?articleid=19222

22 https://www.gov.scot/publications/summary-community-planning-partnerships-cpps-early-years-change-fund-returns-9781786524355/pages/1/

## Cyfrifoldeb pob cyngor yw penderfynu ar waith partneriaeth strategol yn Lloegr ac mae hyn wedi arwain at ddulliau gwahanol iawn

3.18 Mae'r dull yng Nghymru a'r Alban, fodd bynnag, yn wahanol iawn i Loegr. Yn gynyddol, mae cynghorau yn Lloegr yn dewis peidio â bod â fforwm partneriaeth strategol lleol, sy'n rhannol yn adlewyrchu llai o gyfarwyddyd canolog, cyni a chost gwasanaethu a chynnal y fforymau hyn, ond hefyd oherwydd yr anawsterau o ran meintioli effaith a cyflymder prosesau penderfynu. O'n hymchwil ni canfuom fod y dulliau yn Lloegr yn tueddu i ganolbwyntio ar un flaenoriaeth allweddol – dysgu a sgiliau, twf economaidd, atal tlodi, neu gyflawni digidol. A chan nad oes unrhyw ddulliau na gofynion a orchmynnir yn ganolog, cyfrifoldeb cyrff cyhoeddus yw penderfynu sut y maent yn ymateb, sydd wedi arwain at ddulliau gwahanol iawn gydag ychydig o gysondeb rhwng rhanbarthau. Er enghraifft:

a mae Fforwm Partneriaeth Swydd Derby[23] yn un o'r ychydig bartneriaethau strategol lleol sy'n weddill yn Lloegr ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar atal tlodi mewn ardaloedd gwledig. Mae'r Fforwm yn dod â thros 60 o sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol ynghyd i gydweithio i wella ansawdd bywyd ar gyfer pobl Swydd Derby. Mae Partneriaeth Swydd Derby yn integreiddio saith partneriaeth strategol arall ac yn rhedeg arsyllfa ddata. Mae Fforwm Partneriaeth Swydd Derby wrthi'n cynnal adolygiad sylfaenol o'i drefniadau llywodraethu i ailbennu ffocws ei flaenoriaethau ar lai o bethau lle ceir bylchau yn y ddarpariaeth lle mae gwasanaethau confensiynol yn y cwestiwn ac i integreiddio ymdrechion ymhellach, er enghraifft mewn gwaith atal ym maes diogelwch ieuenctid.

b mae Growing our City[24] gan Gyngor Dinas Newcastle yn canolbwyntio ar ddenu ac ysgogi buddsoddiadau yn y ddinas i dyfu'r economi a chreu Newcastle fwy cynaliadwy. Yn allweddol i hyn mae'r rhaglen waith sy'n cael ei datblygu dan Fargen Ddinesig Newcastle[25], sy'n rhoi cymorth i ddatblygu Ardal Ddatblygu Garlam yng nghoridor Newcastle a Gateshead sy'n galluogi'r Cyngor i adfywio canol y ddinas a threchu tlodi. Ochr yn ochr â hyn ceir y gwaith gwyddorau bywyd a gofal iechyd sydd wedi ysgogi buddsoddiadau gwerth mwy nag £1 biliwn a phartneriaeth y Cyngor gyda Legal and General ar safle Helix.

23 https://www.derbyshirepartnership.gov.uk/home.aspx

24 https://www.newcastle.gov.uk/our-city/growing-our-city

25 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/406293/Newcastle-City-Deal-Paper.pdf

c mae Partneriaeth Ar-lein Swydd Essex[26] yn canolbwyntio ar un flaenoriaeth allweddol: gwella mynediad digidol, tyfu sgiliau, a sicrhau bod gan yr holl bartneriaid fynediad at y dechnoleg a data integredig gorau. Mae'r bartneriaeth yn gweithredu trwy fodel tanysgrifio ac fe'i harweinir ar y cyd gan Gyngor Swydd Essex ac Essex Police. Mae'r bartneriaeth yn rhannu gwybodaeth, adnoddau a gwasanaethau i ddarparu datrysiadau technoleg, sy'n cefnogi anghenion busnes pob sefydliad partner ac yn lleihau cost eu technoleg. Yn arwyddocaol, mae'r bartneriaeth yn cynnwys rhwydweithiau buddiant, ysgolion a chymunedau gwledig.

ch partneriaeth annibynnol yw Southampton Connect, sy'n dod ag uwch gynrychiolwyr y ddinas ynghyd a hwythau'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd allweddol i Southampton ac yn gweithio gyda phartneriaid allweddol y ddinas i wella'r deilliannau i bobl Southampton[27]. Caiff Southampton Connect ei chadeirio gan Siambr Fasnach Swydd Hampshire ac mae'n gyfrifol am gyflawni Strategaeth Dinas Southampton sy'n cynnwys nifer o'r nodweddion ar asesiad llesiant. Mae partneriaid yn pwysleisio cyflymder gweithredu a'r gallu i siarad ag un llais fel manteision pendant amlwg. Cysgu ar y stryd yw blaenoriaeth gyfredol y bartneriaeth yn seiliedig ar fudd y cyhoedd a phryderon lleol.

3.19 O'n dadansoddiad ni, un o'r gwahaniaethau allweddol rhwng Cymru a Lloegr yw'r rhyddid sydd gan gynghorau Lloegr i bennu eu cyfeiriad a'u diben a rôl y sector preifat i gefnogi gweithgarwch strategol. Gyda llai o arian cyhoeddus ar gael i fuddsoddi mewn gwasanaethau a gweithgarwch adfywio, canfuom fod cynghorau Lloegr yn canolbwyntio ar ddefnyddio'u pwerau'n strategol – yn enwedig cynllunio defnydd tir, Y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol[28] (nad yw'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd) a'r gallu i negodi ailddefnydd o incwm a grëwyd o lacio ardrethi busnes – i roi anogaeth ar gyfer mewnfuddsoddiad sy'n helpu i fynd i'r afael â phroblemau. Mae hyn yn helpu i gynyddu cyflogaeth a thyfu refeniwiau o'r dreth gyngor i'w hailfuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus.

26 http://www.eolp.info/

27 https://www.southampton.gov.uk/council-democracy/partnership-working/southampton-connect.aspx

28 Fe wnaeth Deddf Lleoliaeth 2011 gyflwyno'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn Lloegr sy'n galluogi awdurdodau lleol i wneud pethau y byddai unigolyn yn eu gwneud yn gyffredinol ond unrhyw le yn y DU neu mewn gwlad arall. Mae'r pŵer hefyd yn caniatáu i awdurdodau wneud pethau at ddiben masnachol neu fel arall, am dâl neu heb dâl a heb yr angen i ddangos y bydd o fudd i'r awdurdod, ei ardal neu ddinasyddion yr ardal. Mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol wedi ehangu'r ystod o wasanaethau y gall awdurdod lleol yn gyfreithlon eu darparu.

3.20 Fodd bynnag, am bod y dulliau hyn yn cael eu negodi a'u cytuno gan Lywodraeth y DU fesul achos unigol, nid oes unffurfedd rhwng cynghorau na ffocws craidd ar gyfer gweithredu y mae'r holl gynghorau'n ei flaenoriaethu. Mae cynghorau i bob pwrpas yn cael 'llonydd i fwrw ymlaen' heb rhyw lawer o gymorth, trosolwg na her allanol, sydd o ran ei hanfod yn creu risgiau, yn enwedig pan fo pethau'n mynd o chwith. Mae hyn yn wahanol iawn i bolisi Llywodraeth Leol ar gyfer BGCau, sy'n hybu ymateb 'a arweinir gan y sector cyhoeddus' i fynd i'r afael â heriau. Er bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y sector preifat a busnesau, nid ydynt yn cael eu hadnabod fel aelodau craidd o BGCau ac nid yw eu rôl a'u cyfraniad hyd yma yng Nghymru mor ganolog i waith BGCau, gydag un neu ddau o eithriadau, sy'n wahanol i Loegr.

3.21 Mae rhai o'r dulliau yn Lloegr, ond nid pob un, yn cael eu datblygu dan nawddogaeth Bargeinion Twf a Dinesig[29] hefyd. Mae Bargeinion Dinesig yn gweithredu yng Nghymru hefyd a chytundeb ydynt rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a dinas neu ranbarth ddinesig. Mae'n rhoi pwerau a rhyddid penodol i'r ddinas a'i hardal gyfagos i gymryd rheolaeth a chyfrifoldeb dros benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal. Mae Bargeinion Dinesig a Thwf yn canolbwyntio ar ysgogi twf economaidd ledled ardal, ond hefyd ar fynd i'r afael â rhwystrau trwy, er enghraifft, wella cysylltedd trafnidiaeth; cynyddu lefelau sgiliau; cynorthwyo pobl i ddod o hyd i waith; cefnogi busnesau; a phenderfynu sut y dylid gwario arian cyhoeddus. Mae Bargen Twf yn debyg iawn o ran ei diben ond mae'n llai cyfyngol yn ddaearyddol.

29 Mae Bargeinion Dinesig a Thwf wedi dod yn un o'r prif offer ar gyfer ysgogi gweithgarwch economaidd yn y DU dros y blynyddoedd diwethaf. Mae proses a ddechreuodd gyda'r prif ganolfannau trefol yn Lloegr (y tu allan i Lundain) wedi tyfu i gynnwys y rhan fwyaf o'r canolfannau poblogaeth mawr ledled y DU. O ran eu natur, mae'r bargeinion hyn yn unigryw i'r ardal y maent yn deillio ohoni, ac mae peth wmbredd o amrywiaeth yn eu cwmpas a'u huchelgais.

3.22 Mae dwy Fargen Ddinesig yng Nghymru ar hyn o bryd – Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd[30] a Bargen Ddinesig Bae Abertawe[31] – a chynigion i ddatblygu Bargeinion Twf yng Nghanolbarth Cymru a Gogledd Cymru. Mae'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid yn y naill a'r llall o'r Bargeinion Dinesig presennol wedi sefydlu trefniadau llywodraethu ar y cyd i oruchwylio'r gwaith o roi'r fargen ar waith. O ystyried potensial Bargeinion Dinesig i gael effaith gadarnhaol ar wella llesiant economaidd mae'n bwysig bod eu gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau datblygu cynaliadwy yn gyson â'r Ddeddf, mater allweddol a amlygwyd gan y Comisiynydd gydag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus mewn gohebiaeth[32]. Beth bynnag, maent hefyd yn bartneriaeth fawr arall sy'n ychwanegu at ddarlun o gynllunio a chyflawni ar draws y sector cyhoeddus sydd eisoes yn gymhleth.

30 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/508268/Cardiff_Capital_Region_City_Deal.pdf

31 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/611685/Swansea_City_Deal_-_English.pdf

32 https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/03/20161212-City-deal-FinalEng.pdf

# Atodiadau

# Atodiad 1 – methodoleg yr astudiaeth



# Atodiad 1 – methodoleg yr adolygiad

## Adolygiad o lenyddiaeth

Rydym wedi adolygu ystod eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys:

- tystiolaeth a gyflwynwyd i ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Byrddau Gwasanaethau Lleol;
- archwilio polisi cenedlaethol, canllawiau statudol a deddfwriaeth a chanllawiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- archwilio adroddiadau a chofnodion a gwybodaeth ar-lein yr holl BGCau o 2018 a 2019 a sampl o ddogfennaeth gynharach;
- gwirio gwefannau BGCau o safbwynt hygyrchedd ac o safbwynt annog y cyhoedd i gymryd rhan;
- adolygu gwybodaeth ariannol am BGCau;
- cymharu blaenoriaethau cyhoeddus mewn asesiadau llesiant ag amcanion llesiant;
- cofnodi pwy fynychodd cyfarfodydd BGCau ac archwilio amodau gorchwyl yr holl BGCau lle'r oedd y rhain yn bodoli;
- asesu i weld a yw BGCau yn lliflinio'u gweithgarwch trwy integreiddio partneriaethau statudol a chynlluniau/strategaethau eraill;
- ystyried a yw BGCau yn cymryd cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ystyriaeth;
- adolygu'r holl gofnodion ac adroddiadau gan bwyllgorau craffu cynghorau ac adolygiadau blynyddol o graffu sy'n ymwneud â BGCau; ac
- ymchwil berthnasol arall a chanllawiau perthnasol eraill gan lywodraeth, cynghorau, CIPFA a chyrff ymchwil.

## Ymchwil gymharol

Fe wnaethom gymharu canllawiau a gwaith partneriaeth strategol yng Nghymru â dulliau yn Lloegr a'r Alban.

## Galwad am dystiolaeth

Fe gynhaliom ni alwad am dystiolaeth ar gyfer yr holl aelodau statudol ac aelodau gwadd o BGCau a chawsom ymatebion gan 51 o aelodau o BGCau a oedd yn cynrychioli 19 BGC

## Cyfweliadau a grwpiau ffocws

Fe wnaethom gyfweld â chynrychiolwyr o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac aelodau o BGCau gan gynnwys swyddogion cynghorau, awdurdodau tân ac achub, heddlu a'r sector gwirfoddol a chydgysylltwyr BGCau. Fe wnaethom gyfweld â swyddogion mewn cynghorau yn Lloegr ac fe wnaethom waith maes yn Newcastle. Fe gynhaliom ni grwpiau ffocws gyda staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cynnal archwiliadau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhob un o'r 44 o gyrff cyhoeddus ac sydd wedi arsylwi ar gyfarfodydd craffu.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Conwy County Borough Council – Draft Action Plan responding to
**Review of Public Service Boards**

| Recommendations | Agreed | Responsibility | Action(s) to be taken | Implementation Date |
|---|---|---|---|---|
| R1a. We recommend that PSBs: • conduct formal assessments to identify the potential impact on people with protected characteristics and the Welsh language and review agreed actions to ensure any adverse impacts are addressed; | The Board have completed an impact assessment as part of the development of the well-being plan (this was undertaken by Denbighshire Council on behalf of the Board). It outlines the impacts against the national well-being goals (including equality and Welsh language). | Conwy and Denbighshire PSB | The PSB completed an EQIA for the Wellbeing Plan and completed a comprehensive Assessment of Wellbeing.<br><br>We will do a light touch review of the EQIA to consider Covid | By May 2021 |
| R1b. We recommend that PSBs improve transparency and accountability by making PSB meetings, agendas, papers and minutes accessible and available to the public; | The Conwy and Denbighshire PSB meetings have been open to the public to observe since December 2017 (with the Board decision made in September 2017).<br><br>Meeting minutes have been available on the PSB website since the establishment of the PSB (in April 2016). PSB agendas have been published prior to the meeting since June 2017 (they are available on the PSB's | Conwy and Denbighshire PSB | Continue to publicise the meetings and ensure the agenda and minutes are available on the PSB website.<br><br>All meeting details are on the PSB website and modern.gov (via Denbighshire CC) | Completed |

| Recommendations | Agreed | Responsibility | Action(s) to be taken | Implementation Date |
|---|---|---|---|---|
| | website as well as the each LAs committee pages). | | | |
| R1c. We recommend that PSB's strengthen involvement by working to the guidance in the National Principles for Public Engagement in Wales | The Board have outlined their engagement commitment within their Terms of Reference. See appendix 1.<br>Most Members have endorsed the National Principles for Public Engagement (however as individual organisations rather than a Board). The engagement work which has been undertaken to date has followed the principles. | Conwy and Denbighshire PSB | The Board to formally endorse the National Principles for Public Engagement.<br>Publish the PSB ToR on the website. | March 21 |
| R1d. We recommend that PSBs feedback the outcome of involvement activity identifying where changes are made as a result of the input of citizens and stakeholders. | The Board provide feedback following any involvement activity undertaken. The Board have also developed a communication plan which outlines the PSBs communication and engagement objectives. See appendix 2 | | Continue to update and review the communication plan as necessary. | Ongoing |

| Recommendations | Agreed | Responsibility | Action(s) to be taken | Implementation Date |
|---|---|---|---|---|
| R2. To improve scrutiny we recommend that PSBs and public bodies use the findings of the Auditor General for Wales' Discussion Paper: Six themes to help make scrutiny 'Fit for the Future' to review their current performance and identify where they need to strengthen oversight arrangements and activity | A joint Conwy and Denbighshire PSB scrutiny committee was established in May 2019. It comprises of 8 elected members from both Conwy and Denbighshire (with cross party representation). raining was undertaken before the establishment of the committee to prepare Members for the role. The AW discussion paper has been shared with the committee. Recommendations / feedback from the committee are taken to the PSB for consideration. Processes will be strengthened as scrutiny becomes more established. PSB scrutiny committee members also attend the Board (as observers) to better understand the decisions of the Board as part of their role. | PSB Joint Scrutiny Committee | A joint PSB scrutiny committee has been established and a comprehensive induction programme was delivered<br><br>**The Joint PSB Scrutiny committee need to consider this action – table for next agenda with agreement from the Committee.**<br><br><br>local-government-s<br>crutiny-2019-discuss | March 2021 |

| Recommendations | Agreed | Responsibility | Action(s) to be taken | Implementation Date |
|---|---|---|---|---|
| **2b.** We recommend that PSBs ensure scrutiny committees have adequate engagement with a wider range of relevant stakeholders who can help hold PSBs to account. | It is the joint PSB's scrutiny decision as to who they want to engage with and invite to participate on the committee. The PSB can only make proposals.<br>The Joint Scrutiny has discussed co-option at its first training event, where it was agreed this would be reviewed once the Joint Scrutiny Committee was more established and perhaps call on 'expert witnesses' if required.<br><br>There are also existing mechanisms in both councils which encourage public engagement, such as e-petitions, webcasting, tabling a question, public meetings etc. | Joint Scrutiny Committee | Propose to the PSB scrutiny committee that they consider inviting co-optees onto the committee.<br><br>**Joint Scrutiny Committee to discuss this recommendation.** | January 2021 |
| **3a.** To help build capacity, consistency and resourcing of activity we recommend that: PSBs take the opportunity to discharge other plan and strategy obligations through the Local Wellbeing Plan; | | Conwy and Denbighshire PSB | Not a priority at present | |

| Recommendations | Agreed | Responsibility | Action(s) to be taken | Implementation Date |
|---|---|---|---|---|
| **3b.** To help build capacity, consistency and resourcing of activity we recommend that the Welsh Government enables PSBs to develop flexible models of working including: – merging, reducing and integrating their work with other forums such as Regional Partnership Boards; and – giving PSBs flexibility to receive, manage and spend grant monies subject to PSBs ensuring they have adequate safeguards and appropriate systems in place for management of funding; effective budget and grant programme controls; and public reporting, scrutiny and oversight systems to manage expenditure | | Welsh Government to respond | | |
| **R4.** To help build capacity, consistency and resourcing of activity we recommend that the WG and WLGA in their review of Strategic Partnerships take account of and explore the findings of this review | | Welsh Government and WLGA to respond | | |

**CYD-BWYLLGOR CRAFFU**
**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Rhian Evans, Cydlynydd Craff, CSDd<br>Dawn Hughes, Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor a Chraffu, CBSC |
| E-bost: | rhian.evans@sirddinbych.gov.uk<br>dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif Ffôn: | 01824 712554<br>01492 576061 |

| Dyddiad | Testun |
|---|---|
| **I’w gadarnhau** | **Cynnydd ar flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**<br><br>Cefnogi Lles Meddwl Da i Bob Oed (Richard Firth, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru) |
| **I’w gadarnhau** | **Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhoi diweddariad i'r cyfarfod ar sut y maent yn cyfrannu at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a buddion y BGC i bartneriaid**<br><br>**(**Bethan Jones, Cyfarwyddwr Ardal Ganolog) |
| **I'w gadarnhau** | **Cynllun Cyfathrebu/Strategaeth Ymgysylltu Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus**<br><br>Gallai’r Aelodau graffu ar effeithiolrwydd y BGC o ran cyfleu ei amcanion a’i ganlyniadau i fudd-ddeiliad a phreswylwyr. |
| **I'w gadarnhau** | **Cofrestr Risg**<br><br>Mae’r Bwrdd yn canolbwyntio ar ddatblygu cofrestr risg, a all fod yn faes i’w graffu arno. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag